PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

Rhifyn 28 tudalen

PRIS 75c | Rhif 368 | EBRILL 2014

**Eisteddfod Penrhyn-coch** t.6-9



**Yn y gwaed** t.16-17



**Cerys yn Awstralia** t.12

# LLONGYFARCHIADAU!



Parti Llefaru y Dosbarth Derbyn



Efan Williams yn derbyn Cwpan Parhaol er cof am Mary Thomas, Bronsaint am yr Her Unawd gan Cemlyn Davies



Bryn Griffiths, (gweler tudalen 6 a 10) Aberaeron, enillydd Tlws yr Ifanc



Anwen James, enillydd Cadair 2014 gyda June Griffiths, née Kenny – enillydd Cadair y Steddfod gyntaf ym 1964. Yn y cefn, Elsie Morgan. Trysorydd a rhoddwr y gadair efo'i gŵr Morris a Mairwen Jones, Ysgrifennydd.

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | Rhoshelyg@btinternet.com

**TEIPYDD – Iona Bailey**

**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 832980

**CADEIRYDD – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228

**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
3 Bryn Meillion, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk

**HYSBYSEBION – Rhodri Morgan**
Maes Mieri, Llandre, ☎ 828 729
rhodrimoc@yahoo.co.uk

**LLUNIAU – Peter Henley**
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**

**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr
elin.john@yahoo.co.uk

**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Swyddfa'r Post ☎828 201

**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Mrs Aeronwy Lewis**
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dai Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660

**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** - Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** - Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
**Mrs Mair England**
Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** - 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

## Rhifyn Mai
## Deunydd i law: Mai 9 Dyddiad cyhoeddi: : Mai 21

**EBRILL 18** Dydd Gwener Helfa wyau Pasg Cylch Meithrin Trefeurig o 4.00 o'r gloch ymlaen o gaban y Cylch Meithrin ar dir Ysgol Penrhyn-coch

**EBRILL 19** Prynhawn Sadwrn Te Pasg yr Eglwys yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor rhwng 1.30 – 3.30

**EBRILL 19** Nos Sadwrn Noson gyda Dafydd Iwan a Bois y Gilfach yng Ngwesty Llety Parc, Aberystwyth am 8.00. Tocynnau £10 ar gael oddi wrth Megan Jones (01970) 612768. Holl elw'r noson tuag at Apêl Elain.

**EBRILL 19** Dydd Sadwrn Gweithdy'r Pasg yn Neuadd Eglwys St Ioan, Penrhyn-coch rhwng 10 a 12.00. Mae croeso i blant sy'n 3 oed a throsodd.

**EBRILL 26** Dydd Sadwrn yn Neuadd Llanfarian am 3.00 Cymdeithas Garddwriaeth Sir Aberteifi/CHS- Sêl Planhigion - planhigion ac eginblanhigion wedi eu tyfu gan aelodau'r gymdeithas. Te a chacennau cartref. Mynediad: 50c

**EBRILL 28** Dydd Llun Ysgolion Ceredigion yn ailagor ar ôl gwyliau'r Pasg

**EBRILL 30** Nos Fercher Eisteddfod Aberystwyth ym Morlan 4.00 ymlaen.

**MAI 3-4** Gŵyl Bedwen Lyfrau. Gŵyl Lyfrau Dyffryn Aeron yn Felin-fach. Trefnir gan Gwlwm Cyhoeddwyr Cymru

**MAI 8** Nos Iau Gwasanaeth ordeinio Y Parchg Andrew Loat yn Eglwys Llanbadarn Fawr am 7.00

**MAI 11-17** Wythnos Cymorth Cristnogol

**MAI 18** Nos Sul Cyngerdd mawreddog yn Eglwys yr Hafod, Cwmystwyth am 5.00 yng nghwmni Rhian Lois, Robin Lyn, Nest Jenkins ac eraill

**MAI 22** Dydd Iau Etholiad Ewrop

**MAI 23** Dydd Gwener Ysgolion Ceredigion yn cau am hanner tymor

**MAI 24** Nos Sadwrn Theatr Genedlaethol Cymru yn cyflwyno Y Negesydd yn Theatr y Werin, Canolfan Celfyddydau Cymru am 7.30

**MAI 28** Nos Fercher Cyfarfod Blynyddol Neuadd Pen-llwyn am 8.00.

**MEHEFIN 2** Dydd Llun Ysgolion Ceredigion yn ailagor ar ôl hanner tymor

**MEHEFIN 2 – 3** Nos Llun – Mawrth Cwmni'r Fran Wen yn cyflwyno Gwyn (cyfieithiad Cymraeg o ddrama Andy Manley) yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth am 6.00 nos Lun a 10.30 a 1.30 dydd Mawrth

**MEHEFIN 18** Taith flynyddol Cymdeithas Gymraeg y Borth – enwau i Gwynfryn Evans (820778)

**MEHEFIN 20** nos Wener Barbeciw yn y Cartref am 6.30. Trefnir gan Ffrindiau Tregerddan

**MEHEFIN 21** Dydd Sadwrn Taith flynyddol Cymdeithas y Penrhyn yn dilyn Owain Glyndŵr gyda'r Athro Gruffydd Aled Williams. Enwau i Ceris Gruffudd 828017 Rhoshelyg@btinternet.com

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru

Ymunwch â Grŵp Facebook Ytincer

### Camera'r Tincer

Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

### Y Tincer ar dâp

Mae modd cael y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu. Cysylltwch â Rhiain Lewis, Glynllifon, 17 Heol Alun, Aberystwyth, SY23 3BB (☎ 612 984)

# Pasg Hapus i chi gyd

## CYFEILLION Y TINCER

**Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer Mis Mawrth**

£25 (Rhif 18) W H Howells, Rhyd y Gof, Penrhyn-coch
£15 (Rhif 214) Alwyn Hughes, Gwarcwm Hen, Capel Madog
£10 (Rhif 204)Aled Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tîm dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher Mawrth 18.

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mared ac Elgan – ein dylunydd – ar enedigaeth merch fach - Leusa Miriam Gruffudd ar Fawrth 20fed.

### Cymdeithas Alzheimers

Mae'r prosiect, 'Rhowch Gynnig ar Rhywbeth Newydd' yn cefnogi pobl sydd wedi eu heffeithio gan ddementia i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a chymdeithasol. Wedi'i ariannu gan y Loteri Fawr, bydd ein prosiect yn cyflwyno amryw o weithgareddau ar draws De Orllewin Cymru i gynnwys Siroedd Caerfyrddin, Ceredigion, Penfro, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont.

Bydd y prosiect yn cyflwyno amrywiaeth o gyfleoedd dysgu anffurfiol a ffurfiol i bobl sydd â dementia ynghyd â'u gofalwyr.

Datblygir y grwpiau diddordeb mewn partneriaeth ag Addysg Gymunedol mewn amryw o leoliadau ar draws y gwahanol siroedd. Bydd pob grŵp yn rhedeg am 10 wythnos, fel arfer rhwng 1-2 awr ac fe fyddan nhw'n amrywio o gelf, coginio, cwiltio clytwaith, gwneud ffyn cerdded, TG a llawer mwy.

Fe fydd y grŵp nesaf, aerobig o'r gadair, yn dechrau ar y 25 Ebrill ac yn cael ei gynnal yng Nghastellnewydd Emlyn.

Byddwn hefyd yn cynnig rolau gwirfoddoli diddorol, gyda mynediad i hyfforddiant priodol. I ddod o hyd i fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Lisa Evans
Cyd-lynydd Grŵp, Cymdeithas Alzheimers
Uned 4a Parc Aberporth
Blaenannerch
Ceredigion, SA43 2DZ
01239 810 810 / 07834 729774
Lisa.Evans@alzheimers.org.uk
www.alzheimers.org.uk



## 30 MLYNEDD YN OL

Rhys Dobson a phlant Ysgol Penrhyn-coch gyda'r siec a gyflwynwyd i Gronfa'r Multiple Sclerosis ar ran Clwb Urdd yr Ysgol. (O'r *Tincer* Ebrill 1984)

## GOGINAN

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn gydag Amber a Gerallt, Blaendyffryn ar farwolaeth tad-cu Amber yn ddiweddar.

### Llongyfarchiadau

Unwaith eto mae Lewis Johnston, Y Druid, wedi dod i'r brig yng nghystadleuaeth CAMRA am y dafarn orau yng Ngheredigion. Pob lwc iddo yn y rownd nesaf dros Dde Cymru.

### Swydd Newydd

Pob lwc i Sioned Jones, Hafan, ar ei swydd newydd yn Camau Bach. Gobeithio dy fod yn mwynhau ynghanol y plant bach.

Siop
**SGIDIAU GWDIHW**
8 Ffordd Portland, Aberystwyth
SY23 2NL
**01970 617092**


Gwasanaeth
**GOFAL TRAED**
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

### RHODDION

Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhoddion isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.

Cyngor Cymuned y Borth. £100
Cyngor Cymuned Tirymynach £350
Cyngor Cymuned Trefeurig £250

**CYMANFA GANU UNEDIG GOGLEDD CEREDIGION**

**Rihyrsals Nosweithiau Mercher 7.00**

**Ebrill 16** Capel y Garn, Bow Street
**Ebrill 30** Horeb, Penrhyn-coch
**Mai 7** Bethel, Aberystwyth

Cynhelir y Gymanfa yng Nghapel Bethel, Aberystwyth dydd Sul Mai 11 am 10.00 a 5.30. **Arweinydd:** Margaret Daniel, Aberporth.

**Telerau hysbysebu**
Tudalen lawn (35 x 22 cm) £100
Hanner tudalen £60
Chwarter tudalen £30
neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn - £40 y flwyddyn (10 rhifyn - misol o Fedi i Fehefin); mwy na 6 mis + £4 y mis , llai na 6 mis - £6 y mis. Cysyllter â Rhodri Morgan os am hysbysebu.

# PENRHYN-COCH



Oedfaon
Horeb

**Ebrill**
20 2.30 Oedfa i ddathlu'r Pasg Gweinidog
27 10.30 Oedfa'r Pasg bach Gweinidog

**Mai**
4 10.30 Ysgol Sul; 2.30 Oedfa gymun Gweinidog
11 10.00 a 5.30 Y Gymanfa Ganu Undebol – Bethel, Aberystwyth
18 10.30 Ysgol Sul 2.30 Oedfa bregeth Y Parchg Peter Thomas
25 10.30 Oedfa yng nghmwni Cerys Humphreys

**Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch**
**Dyddiadau Gwasanaethau Dros y Pasg**

**Ebrill**
17 Dydd Iau (Iau Cablyd) Cymun 7.00pm
18 Dydd Gwener (Myfyrdod ar y Groes) 2.00pm
20 Dydd Sul (Y Pasg) Cymun 10.45am
27 Dydd Sul (Boreol Weddi) 10.45am

**Mai**
4 Dydd Sul (Esgob Conffformasiwn) Cymun 10.45am

## Cylch Meithrin Trefeurig

Yr ydym wedi bod yn brysur y tymor yma yn dathlu Gŵyl Ddewi ac yn ymuno yn Eisteddfod Ysgol Penrhyn-coch. Yr ydym wedi bod yn brysur hefyd yn creu crefft, carden ac yn coginio danteithion ar gyfer Sul y Mamau.

Y mae'r penbyliaid wedi cyrraedd y Cylch ac yr ydym yn mwynhau eu gwylio yn nofio ac yn tyfu.

Yn ystod y tywydd braf yr ydym wedi cael ambell i drip i'r parc ac yn mwynhau yn fawr y gofod y tu allan i'r caban.

Bu aelodau y Cylch yn cystadlu yn Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch ar y nos Wener.

## Cinio Cymunedol Penrhyn-coch

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 23 Ebrill a 14 a 28 Mai. Cysylltwch â Job McGauley 820 963 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

## Cerddor ifanc

Llongyfarchiadau i Rhys James, Dôl Helyg, ar basio ei arholiad piano Gradd 2. Da iawn ti Rhys!

## Penodi i swydd ddysgu

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Elin Haf Huxtable, Y Ddôl Fach, ar gael ei phenodi yn Athrawes Addysg Gorfforol yn Ysgol Gyfun Gwynllyw, Pont-y-pŵl,Torfaen.

## Penodi i Swydd

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Eli Thorogood, Glan Ceulan, benodwyd i swydd ar gyfer graddedigion gyda chwmni Spencer Ogden yn Llundain - ymgynghorwyr ar gyfer ynni bydeang. Ar ôl 2 flynedd bydd yn symud i'w swyddfa yn Efrog Newydd.

## Pen blwydd arbennig

Pen blwydd hapus hwyr i Wyn Humphreys, Gelli, ddathlodd ei ben blwydd yn 70 oed ar Ebrill 6ed. Gobeithio iddo fwynhau'r dathliadau.

## Cydymdeimlad

Daeth y newydd dydd Llun 7 Ebrill am farwolaeth Eluned Morgan, Glan Ceulan, yn Ysbyty Tregaron. Cynhelir yr angladd dydd Mawrth 15 Ebrill. Cydymdeimlwn gyda Auriel Evans, Bow Street; Barbara ac Eleri a'u teuluoedd.

ac â Egryn Evans, Glan Ceulan, ar farwolaeth ei frawd – arferai ffermio Hafod Lom, Llangernyw.

## Clwb hanner tymor Horeb

Gobeithir y bydd Clwb Hanner Tymor Horeb yn cyfarfod ddiwedd wythnos hanner tymor mis Mai – gwyliwch y gofod!

## Merched y Wawr Penrhyn-coch

Nos Iau, 13eg o Fawrth, fe ddaeth yr aelodau ynghyd i ddathlu Gŵyl Ddewi. Croesawyd ein Llywydd, Sue Hughes, ni i gyd efo'r ddwy gangen a wahoddwyd i ymuno â ni, sef cangen Ffair Rhos a changen Llanfarian. Noson Ddwl a Difri oedd y thema ac fe gafwyd noson o hwyl a sbri. Parti canu, dwy sgets, parti llefaru a phawb yn cydganu. Diolchwyd i bawb am wneud eu rhan ac fe gafwyd gwledd i fwyta wedi ei baratoi gan aelodau Penrhyn-coch, ac fe dynnwyd y raffl arferol, ac fe aeth pawb tua thre wedi mwynhau yn fawr iawn. Mae amryw o'r gangen wedi dathlu pen blwydd arbennig yn ddiweddar. Pen blwydd hapus i chi i gyd.

## Priodas

Llongyfarchiadau i Sara Evans (Refail Fach gynt) ac Illtud James ar eu priodas ar 11 Ebrill. Dymuniadau gorau i'r dyfodol.

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Leanne a Dan, 27 Dôl Helyg, ar enedigaeth merch – Megan Eirlys ar 28 Chwefror.

## Gradd Meistr

Llongyfarchiadau i Lisa Jones, Bodorgan

gynt, ar raddio yn MA mewn drama ym Mhrifysgol Rio Grande, Ohio, UDA.

### Ymddeoliad hapus

Pen blwydd hapus hwyr i Richard Owen, Glan Ceulan, a dymuniadau gorau ar ei ymddeoliad o'i swydd yn y Cyngor Llyfrau.

### Cyflwyno gwobrau 2013

Cyflwynwyd siec am £250 i Rhys Meirion tuag at Ymgyrch 'Cerddwn Ymlaen', sef gwobrau a enillwyd gan Gôr y Penrhyn, Penrhyn-coch yn Eisteddfod 2013, arweinydd ac hyfforddwr Mr Emyr Pugh-Evans. Hefyd Parti Llefaru Merched y Wawr, Penrhyn-coch a enillodd amryw wobrau eisteddfodol o dan hyfforddiant y Parchg Judith Morris.

### Croeso gartref

Croeso nôl o Awstralia i Glyn a Norma Collins, Ger-y-llan, ar ôl iddynt fod yn ymweld â'r mab.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â theulu a chysylltiadau y diweddar Defi Evans, Dôl-y-bont;
hefyd â theulu y ddiweddar Janet Edwards, Cae Mawr;

â theulu a chysylltiadau y diweddar William Davies, Brenan, New Cross;

â Mr a Mrs Ralphs ar golli brawd i Mrs Ralphs, sef Jeffrey Ralphs, Aberystwyth;

â Mr a Mrs M Hughes, Ger-y-llan a'r teulu ar golli ewythr ym Mhorthmadog;

â Mair Evans, Glanceulan, a gollodd berthynas yn ddiweddar;

hefyd â theulu y ddiweddar Eirlys Mason Hughes, Bryngwyn. Daeth y newyddion hyn yn drist iawn ar ddiwrnod Eisteddfod a oedd wedi bod yn agos iawn at ei chalon hi ar hyd y blynyddoedd, ac fe fu ar y pwyllgor ac yn cymryd rhan lawer gwaith.

### Cofio Gwenno

Ar Ddydd Sul 23ain o Fawrth ar Cae Baker, Penrhyn-coch cynhaliwyd gêm Gynghrair Cambrian Tyres rhwng Eilyddion Penrhyn-coch a Llanilar. Ail drefnwyd y gêm o




ddechrau Chwefror fel teyrnged i Gwenno Tudor, un o chwaraewyr merched Penrhyn-coch a gafodd ei lladd mewn damwain car ddiwedd Ionawr. Ail drefnwyd gan Bryn Oliver, un o chwaraewyr Penrhyn-coch a ffrind i Gwenno , a Richard Tudor, ei hewythr, sydd hefyd yn hyfforddwr Llanilar. Balch iawn oeddem i weld teulu Gwenno yn bresennol yn y gêm ac yn y clwb wedyn.

Trefnwyd Raffl gan deulu a ffrindiau Liam Jones, cariad Gwenno tuag at Ambiwlans Awyr Cymru. Oherwydd y nifer fawr o wobrau a gafodd eu derbyn tuag at y raffl penderfynwyd cynnal arwerthiant o nifer o'r rhoddion. Codwyd dros £2,100 drwy'r raffl a'r arwerthiant.

Diolch i bawb a gefnogodd y gêm, y Raffl a'r arwerthiant. Roedd yn ddiwrnod teilwng i gofio am Gwenno.




Bryn Oliver, trefnydd y gêm, a sgoriodd un o'r goliau i Benrhyn-coch



Gwenno Tudor gyda'r tîm merched – chwith i'r gôli

### Twrnament Arthur ac Eric Thomas, Penrhyn-coch ar gyfer Ieuenctid

Cwpan Dan 9 – Gators A, Llanilar
Plat dan 9 – Penrhyn Red Dragons
Cwpan Dan 11 – Bow Street A
Plat dan 11 – Tal-y-bont Tigers
Cwpan Dan 14 - Celtiaid A
Cwpan Dan 16 - Bow street
Merch orau y twrnament - Cwpan Gwenno Tudor rhoddedig gan Hugh ac Ann Tudor; enillydd – Lisa Cowdy, Merched Tal-y-bont dan 11
Chwaraewr gorau y twrnament - rhoddedig gan Catrin Galbraith a Sioned Martin; enillydd - Daniel Hopton, Bow Street dan 16
Canlyniadau llawn a rhagor o luniau yn *y Tincer* nesaf



Daniel Hopton, Bow Street dan 16, enillydd chwaraewr gorau'r twrnament gyda'r darian a Catrin Galbraith a Sioned Martin.

### CANLYNIADAU PÊL-DROED PENRHYN-COCH

Tîm cyntaf

| | |
|---|---|
| 5/3/14 | Penrhyn-coch 0 Porthmadog 1 |
| 22/3/14 | Penrhyn-coch 2 Pen-y-cae 3 |
| 29/3/14 | Cefn Druids 1 Penrhyn-coch 1 |
| 1/4/14 | Caersŵs 1 Penrhyn-coch 1 |
| 5/4/14 | Penrhyn-coch 1 Llandudno 2 |

Eilyddion

| | |
|---|---|
| 15/3/14 | Aberdyfi 2 Penrhyn-coch 2 |
| 23/3/14 | Penrhyn-coch 3 Llanilar 0 |
| 29/3/14 | Bow Street 3 Penrhyn-coch 0 |
| 1/4/14 | Penrhyn-coch 2 Tregaron 2 |

3ydd tîm

| | |
|---|---|
| 15/3/14 | Prifysgol Aberystwyth 3 Penrhyn-coch 2 |
| 25/3/14 | Penrhyn-coch 5 Padarn 1 |
| 29/3/14 | Penrhyn-coch 1 Tywyn 1 |

EISTEDDFOD GADEIRIOL PENRHYN-COCH
DATHLU 50

# EISTEDDFOD GADEIRIOL PENRHYN-COCH 2014

Cynhaliwyd Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch nos Wener 4 a dydd Sadwrn 5 Ebrill. Y beirniaid oedd : nos Wener – Magwen Pughe, Cemaes (cerdd); Fflur Fychan, Abercegir (Llefaru). Dydd Sadwrn: Meinir Jones Parry, Caerfyrddin (Cerdd); Osian Maelgwyn Jones, Nercwys (Llefaru a llenyddiaeth) a'r Llywyddion - Ceinwen Jones, Felin-fach (nos Wener) ; Brian Davies, Abertawe (Pnawn Sadwrn) a Marianne Jones-Powell, Llandre (Nos Sadwrn).

Yr Arweinyddion eleni oedd Cemlyn Davies Emyr Pugh-Evans, Manon Reynolds a Gregory Roberts.

Roedd yr Eisteddfod eleni yn dathlu 50 mlynedd ei bodolaeth – fe'i sefydlwyd ym 1964. O'r herwydd dewiswyd nifer i'w swyddi oherwydd eu cysylltiad â'r Eisteddfod gyntaf. . Mae Fflur Fychan yn wyres i'r ddiweddar Mrs Vera Evans, Bwthyn - Trysorydd cyntaf y Steddfod ac yn nith i Elsie Morgan, y Trysorydd presennol; Osian Maelgwyn Jones yn gyn gystadleuydd; Ceinwen Jones yn ferch i Mrs Nesta Edwards, ysgrifennydd cyntaf y Steddfod; Brian Davies, Abertawe, yn fab i Elfed Davies oedd yn arweinydd yn yr Eisteddfod gyntaf a Marianne Jones-Powell yn un fu'n cystadlu ar hyd y blynyddoedd. Enillydd y gadair ym 1964 oedd June Griffiths (née Kenny), Aberystwyth ac roedd yn braf ei chael yn bresennol eleni ac yn un fu'n cyrchu y bardd.

Rhoddwyd y gadair a rhodd ariannol o £50 gan Elsie a Morris Morgan, Bwthyn ac fe'i gwnaethpwyd gan grefftwr o'r pentref – Keith Morris, Preseli. Yr enillydd oedd Anwen James – brodor o Langeitho sydd yn byw yn Aberystwyth bellach ac yn bennaeth Ysgol Myfenydd, Llanrhystud. Dyma'r drydedd waith iddi ennill ym Mhenrhyn-coch. Enillodd o'r blaen ym 1995 a 2000.

Roedd un nodyn trist ar y diwrnod. Fore'r Eisteddfod b farw Eirlys Hughes, Bryngwyn, Cwmsymlog – hi ganodd Cân y Cadeirio ym 1964 a bu'n aelod ffyddlon o'r Pwyllgor ar hyd y

## Meddai'r beirniad, Osian Maelgwyn Jones

### TLWS YR IFANC

Braf oedd derbyn 22 o geisiadau i'r gystadleuaeth. Roeddwn yn falch fod y testun wedi ysgogi cymaint i gystadlu. 'Dw i'n meddwl mod i'n gywir i ddod i'r casgliad fod y gwaith wedi ei wneud fel rhan o waith ysgol uwchradd a hoffwn ddiolch i'r athrawon am roi cymorth i'r ymgeiswyr ac am ei hannog i gystadlu. Y bobl ifanc yma yw cystadleuwyr y dyfodol mewn eisteddfodau felly mae'n bwysig ennyn eu diddordeb mewn cystadlu a mewn eisteddfodau cyn gynted â phosib.

Efallai i chi sylwi i mi ddefnyddio'r gair 'ceisiadau' yn hytrach nac 'erthyglau' wrth nodi'r nifer a ymgeisiodd. Os oedd gwendid cyffredinol yn y gystadleuaeth, y ffaith nad erthyglau oedd peth o'r gwaith ond yn hytrach eitemau o gyflwyno gwybodaeth, oedd hynny. Efallai mod i'n bod yn rhy feirniadol wrth ddweud hyn ond gallesid fod wedi addasu rhai ohonynt i fod yn debycach i erthyglau.

Mi oedd y testun yn gofyn am erthyglau addas ar gyfer pobl ifanc ac er nad ydw i'n dod mewn i'r categori hynny mwyach (!), 'dw i ddim yn siwr a fyddai pob un o'r rhain wedi apelio at bobl ifanc.

Serch hynny, ar y cyfan, roedd y ceisiadau'n ddiddorol, wedi eu hysgrifennu'n raenus a chywir a'r themaun amrywio'n o faterion lleol i bethau'n ymwneud â gwledydd eraill.

### Y GADAIR



Derbyniwyd 11 o gerddi i'r gystadleuaeth eleni sydd yn nifer teilwng iawn gan, efallai, na fyddai'r testun yn apelio at bawb. Roeddwn yn falch o weld safon arbennig o dda i'r cerddi. Roedd hon yn gystadleuaeth ardderchog heb ddim un cerdd wan. Rhaid canmol pob un o'r beirdd am eu hymdrechion.

Heb os, cerdd Rwy'n Well yw cerdd fwyaf ingol y gystadleuaeth. Mae'r bardd yn mynd â ni i lawr i goedwig iselder ysbryd. Nid yw creaduriaid natur yn gorfoleddu bywyd fel y portreadir gan rai beirdd yn y gystadleuaeth, ond maent yn ysglyfaethus a'r gwrychoedd yn crogi pob ymdeimlad. Yr unig obaith yma yw y bydd cariad plentyn y bardd rhywddydd yn ei thynnu allan o'r goedwig hon. Mae'r gerdd wedi ei gweu yn dynn, does dim geiriau llanw yma, pob delwedd yn llanw ei lle, ac er dwysed y mater a draddodir, y mae hi'n 'canu' fel y dywedai'r diweddar Iwan Llwyd. Mae hi'n brofiad ysgytwol i ddarllen y gerdd hon.

blynyddoedd. Cydymdeimlwn gyda Myrddin ac Aneirin a'u teuluoedd.


Roedd 22 wedi cystadlu ar Dlws yr Ifanc a'r enillydd oedd Bryn Griffiths, Aberaeron. Mae Bryn yn fab i Roland Griffiths ac yn ŵyr i Maldwyn a Bidi Griffiths, Aberaeron – a Ficer Llanfihangel Genau'r-glyn gynt. Dyma'r tro cyntaf i Bryn ennill gwobr o'r fath. Mae yn ddisgybl ym mlwyddyn 10 yn Ysgol Gyfun Penweddig yn astudio ymysg y pynciau craidd, Ffrangeg, Daearyddiaeth a Gwyddoniaeth triphlyg. Nid yw wedi penderfynu eto beth fydd ei gynlluniau ar ôl ei TGAU na'i lefel A. Roedd yn ddiolchgar i Miss Lleucu Jones, ei athrawes Gymraeg am yr arweiniad roddwyd iddo. Ymysg ei ddiddordebau mae'n rhestru chwarae rygbi a pêl-droed a darllen nofelau ditectif gan gymysgedd o awduron.

Gellir gweld rhestr lawn o'r enillwyr ar wefan Trefeurig http://www.trefeurig.org/uploads/canlyniadau2014.pdf



Llun:Arvid Parry-Jones

Tomos James – enillydd ar y llefaru Bl 1 a 2 nos Wener



## Y DDAFAD GOLLEDIG

**Llongyfarchiadau i Dewi Davies, Llanrhystud, (ffugenw: Y ddafad golledig) – disgybl yn Ysgol Penweddig – ar ddod yn gyntaf ar yr erthygl ar gyfer cylchgrawn amaethyddol ac yn ail agos ar Dlws yr Ifanc. Mae Dewi yn fab i Glyn Davies – gynt o Pantdrain, Penrhyn-coch.**

Datblygiad cwmni Apple yw thema erthygl Y Ddafad Golledig. Mae hon yn erthygl dda o'r teitl trawiadol – Datblygiad yr Afal i'r diwedd. Er bod yma ambell i wall treiglo, mae hi fel arall wedi ei ysgrifennu'n raenus ac yn bwysig iawn, yn siwr o apelio at bobl ifanc sydd wrth eu boddau efo technoleg a dyfeisiadau Apple. Mae yma gydbwysedd da o ffeithiau a barn yma gan gloi'n effeithiol drwy edrych i'r dyfodol. Erthygl dda y mwynheais ei darllen ac un wedi ei gosod yn effeithiol hefyd.



Llun:Arvid Parry-Jones

Molly Robinson, enillodd ar y canu a'r llefaru Dosbarth Derbyn

# Hiraeth

Mae'r henwlad yn dawel a heddychol
Yn bodloni i fod yn y byd.
Paham ymadawais ar fy mehentref,
A ffarwelio ar ardal fy nghrud?

Fe ddysgais lawer yn fy mhentref
Trwy addysg ysbrydoledig a mud.
Roedd gennyf wybodaeth naturiol
Am yr ardal fynyddig a hud.

Rwyf yn hen fab cariadus Ceredigion
Sydd wedi adrodd stori ei dad;
Wedi i yntau ddychwelyd i'r ardal
Ar ôl ei antur erchyll yn y gad.

Ond yn awr rwyf yn byw yn llawn hiraeth
Sydd yn llenwi fy nghalon a blin
Am gyfle i ddod 'n ôl unwaith eto
I fryniau y Penrhyn a'r ffin.

Mae'r tirlun yn llenwi fy enaid
A rhyw hapusrwydd tangnefeddus a chlir
Rwyf yn sicr iawn am unpeth.
Fe fyddaf yn ôl - cyn bo hir.

**Brian Davies**
(**darllenwyd gan y llywydd bnawn Sadwrn**)



Brian Davies, Abertawe – llywydd prynhawn Sadwrn

# Y Goedwig

Canghennau iselder sy'n cuddio ei phrydferthwch
a'r brigau meinion yn byseddu a bygwth hunan-barch.
Ei daear laith yn sugno dagrau anobaith
gan eni paranoia.
Ni cheir lloches na hafan yn y goedwig hon.
Ni all ffrind gynnig cysur ymysg y tyfiant
sy'n tanseilio hunanwerth.
Daw'r gwrych i grogi'r ymdeimlad o lwyddo
ac euogrwydd sy'n llygru'r aer o'i chwmpas.
Daw bleiddiaid blinder o'u cuddfannau
i herio hunanreolaeth
a chri'r gwdihŵ yn unsain a chri'r galon.

Ni all geiriau'r bardd na delweddau'r arlunydd
bortreadu'r goedwig , gymhleth hon.
Ni cheir cyfoeth lliw clychau'r gog a bysedd y cŵn.
Yn fud mae alawon yr adar
a dieithriaid yw creaduriaid y tymhorau.
Ni cheir yma ond gwrychoedd gwendid
yn fy ngwatwar yng ngoleuni'r lloer.
Ei drain yn bwydo'r clwyfau anweledig
a'r adar ysglyfaethus sy'n hofran yn ddiamynedd
dros hagrwch y salwch anesboniadwy.

Weithiau caf fyfyrio yn ei llonyddwch
ond daw'r oriau di gwsg ymysg sibrydion y dail
i fy nedfrydu eto i garchar fy iselder.
Noson arall o unigrwydd a phoen meddwl
a'i hagrwch hwyrnos yn fy hawlio.
Clywaf gamau methiant yn gwasgu ei deiliach sych
a'r gwynt yn llafar ganu fy enw yn wawdlyd.

Ni ellir adnabod anesmwythdod y goedwig hon
heb fod yn rhan ohoni.
Ni ellir deall ei bygythiad heb ddioddef y boen
na dianc o'i chrafangau,
nes cyfaddef ei bodolaeth.
Perfformiadau oscaraidd normalrwydd
ar lwyfan bywyd yn twyllo eraill
a'u diogelu rhag y grym sy'n berchen iddi.
Anelu at ymestyn y dydd er mwyn byrhau'r nos
gan geisio amddifadu'r ansicrwydd
a dadmer y digalondid dirgel.

Trof at y seithblwydd llon, fy nhrysor.
Ei hanwyldeb a'i bwrlwm afieithus
sy'n gryfach na grym cysgodion yr isymwybod,
a'i gwên yn gorfodi'r tywyllwch i gilio.
Gafaelaf yn ei llaw
gan gofleidio'r gobaith y daw'r dydd,
pan fydd ei chariad anfesuradwy
yn arwain yr un sy'n ei charu'n ddiamod
o'r goedwig hon,
i brydferthwch eu byd.

**Anwen James**

Llun:Arvid Parry-Jones



Betsan Fychan Downs, enillydd unawd Blwyddyn 1 a 2 a Gwion Wilson ddaeth yn ail yn yr un gystadleuaeth nos Wener



Erin Trysor yn barod i dynnu llun mam



Dyma lun o June Kenny yn ennill y gadair ym 1964 – gyda'r ddiweddar Eirlys J. Hughes, Bryngwyn, yn canu cân y cadeirio. Mae gan June daflen o gyfarchion gyflwynwyd iddi – cerddi gan David Jenkins, Elfed Davies (tad Brian Davies,Huw Huws, a Vernon Jones.
Ceir copi ohono ar wefan Trefeurig www.trefeurig.org



Llongyfarchiadau i Damaris Kotei-Martin, Penrhyn-coch ddaeth yn gyntaf yn y gystadleuaeth llefaru i blwyddyn 5-6 nos Wener



Parti Llefaru Mairwen



Swyddogion yr Eisteddfod – Eirwen Hughes, Cadeirydd; Bethan Davies, Is-drysorydd; Mairwen Jones, ysgrifennydd; Ceris Gruffudd, Is-ysgrifennydd ac Elsie Morgan, Trysorydd.



Marianne Jones- Powell, Llywydd nos Sadwrn



Ceinwen Jones, Felin-fach erbyn hyn, Llywydd nos Wener

Llun:Arvid Parry-Jones

# LLANDRE

### Cysylltiad lleol

Llongyfarchiadau i Bryn Griffiths, Aberaeron, ar ennill Tlws yr Ifanc yn Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch nos Wener 4 Ebrill. Mae Bryn i fab i Rolant ac yn ŵyr i'r Parchedig Maldwyn a Mrs Bidi Griffiths, Aberaeron, gynt o Landre. Yma gwelir Bryn efo'i dad yn yr Eisteddfod.




### Pen blwydd hapus

Pen blwydd hapus iawn a dymuniadau gorau i Cecil Jones (Cis), Bron y gân, ar gyrraedd ei bedwar ugain oed ddiwedd Mawrth. Gobeithio iddo fwynhau'r holl ddathlu a fu.

### Merched y Wawr Llanfihangel Genau'r -glyn

Cafwyd noson o frethyn cartref yng nghyfarfod mis Mawrth o Ferched y Wawr, Genau'r-glyn gan i ni gael ein diddanu gan Gwenda James, Taigwynion, un o sylfaenwyr y gangen. Cafwyd hanes hynod ddiddorol ganddi am sut y cafodd ei magu gan ei modryb Kate wedi iddi golli ei mam yn ifanc. `Roedd Anti Kate wedi bod yn gogyddes yn Buttrells, Llandre (Llys Berw yn awr), ac wedi nodi nifer fawr o ryseitiau a ddefnyddiwyd ganddi. `Roedd Gwenda hyd yn oed wedi mynd i'r drafferth o goginio rhai o'r ryseitiau ac fe gawsom eu profi. Yr oedd blas arbennig o dda arnynt.

Hefyd cawsom gwmni Mrs. Elizabeth Evans, Trefnydd Rhanbarth Ceredigion, fu'n trafod y ffordd ymlaen i'r canghennau o Ferched y Wawr sydd wedi lleihau mewn nifer yn yr ardal gan awgrymu efallai y byddai'n syniad da i ddwy neu dair cangen ddod ynghyd yn weddol reolaidd er mwyn cynnal noson a sicrhau cynulleidfa i'r siaradwyr gwadd. Trefnwyd y byddai'r Clwb darllen yn dod ynghyd ar Ebrill 8fed am 2.30. Os oes problem dylid cysylltu â Mrs. Llinos Dafis sy'n cydlynu'r Clwb Darllen.

Edrychwn ymlaen am gael cwmni Mrs. Jean Eklund yn y cyfarfod nesaf a gynhelir ar nos Lun, Ebrill 14eg, yn hytrach na nos Lun y Pasg (yr 21ain).


**Gwersi Gitâr**

**Tiwtor**: Gerald Morgan, Tregaron
geraldmorganguitar@hotmail.co.uk
www.geraldmorganguitar.co.uk

Gitâr i'r Cristion
**01974 299367**
Gwasanaeth Symudol
Dysgwch yn eich cartref
**CYSYLLTWCH!**


### Gwellhad buan

Dymuniadau gorau a gwellhad buan i Mary Thomas, Dolgelynen, sydd yn ysbyty Bron-glais ar ôl syrthio a thorri ei dwy fraich.

### Cylch Darllen Newydd

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Cylch Darllen newydd yn Ysgoldy Bethlehem, brynhawn Mawrth, Ebrill 8fed. Y llyfr dan sylw oedd y nofel *Blasu* (Y Lolfa) gan Manon Steffan Ros. Cafwyd blas mawr ar drafod y digwyddiadau, y cymeriadau, a'r risetiau a phawb yn cytuno ei fod yn llyfr gwir werth ei ddarllen. Bydd cyfarfod nesaf y cylch ar brynhawn Mawrth, Mai'r 6ed, pryd byddwn yn trafod *Er Lles Llawer*, sef hanes Meddygon Esgyrn Môn, gan J. Richard Williams (Gwasg Carreg Gwalch). Mae croeso i bawb ymuno â'r cylch. Am ragor o fanylion cysylltwch â Llinos Dafis, 01970 828262, neu llinos@mybroadbandmail.com


**inc**

Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau,cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.

Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion

13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200


### Banc Bro Enillwyr Mis Ebrill 2014

1. Glyn a Margaret Williams, Bryngolau - £30
2. Huw Meirion, Bancyfelin - £20
3. Hedydd Cunningham, Tyddyn-Pen-y-Gaer - £10

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau mawr a dymuniadau gorau i Siwan ac Endaf Griffiths, Coed-y-glyn, ar enedigaeth eu mab, Huw Lloyd Griffiths, ar 8 Ebrill – brawd bach i Megan.


### Tîm y Dylaniaid!

Pob hwyl i Dylan Huw Edwards, fydd yn aelod o dîm o 'Ddylaniaid' mewn gornest Talwrn Y Beirdd yn erbyn pencampwyr y llynedd- Aberhafren. Y lleill yn y tîm fydd Dylan Iorwerth, Tudur Dylan a Huw Dylan, Abertawe (Dolgellau gynt). Recordir y rhaglen yn Nhalacharn ar Fai 4ydd a gobeithir ei darlledu unai am 7 o'r gloch ar noson y recordiad neu amser cinio'r diwrnod canlynol. Y bwriad oedd codi tîm o feirdd nad ydynt yn aelodau o dimau Talwrn ar hyn o bryd, felly mae'n gyfle da i glywed lleisiau newydd. Mi fydd y Talwrn yn ran o benwythnos arbennig o raglenni sy'n dathlu bywyd a gwaith Dylan Thomas, gyda cyfresi'n cynnwys Stiwdio a Dan yr Wyneb efo Dylan Iorwerth yn darlledu o Dalacharn.

# Taith gerdded y mis

## Clarach i Rhydtir (Rhydhir)

**Man dechrau**: Maes parcio Clarach
**Map**: OS Explorer 213. GR 586840.
**Pellter**: 4.5 milltir, hawdd heblaw am ychydig o lethr tu cefn i Rhydtir.




O'r maes parcio ewch dros y bontbren ac ymlaen ar hyd y ffordd nes cyrraedd llwybr ar y chwith sydd yn mynd tu ôl i rhes o gabanau gwyliau. Dros sticil ac o amgylch y cae at sticil arall. Ymlaen heibio Ffynnon Ddu i gwrdd â'r ffordd, dros sticil arall wrth ochr y tŷ ac ymlaen ar hyd afon Clarach a dod at feidr Rhydtir. I'r dde ac ar ôl yr iet fe welwch feidr yn eich arwain i fyny tuag at Cwm Cottage a'r gornel uwch yr Amlosgfa. Croeswch y ffordd i'r goedwig ac anelu am yr hen gware a dilyn y llwybr a'r ffordd 'nôl i'r man dechrau.

# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

### Diolch

Hoffai teulu y ddiweddar Eirlys Davies, Caehaidd, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniasant yn ystod y mis diwethaf. Gwerthfawrogwyd yn fawr y cardiau, llythyron,ymweliadau a galwadau ffôn a dderbyniwyd. Hoffent hefyd ddiolch yn arbennig i ffrindiau a chymdogion am eu gofal o'u mam yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

### Sioe Capel Bangor

Trec Ceffylau Hamddenol 5 milltir neu 10 milltir ar gefn ceffyl ar hyd llwybrau golygfaol y Cwm. Dechrau ger Canolfan Ymwelwyr Statkraft ar ddydd Llun Mai 5ed 2014.
Amser 10-11.00 y bore. Pris £10.00
Am fwy o fanylion cysylltwch â Nerys Daniel 01970 880691 neu gwefan Sioe Capel Bangor http://www.capelbangorshow.co.uk/

# TREFEURIG

### Cydymdeimlo

Syfrdanwyd ardal gyfan gyda'r newyddion am farwolaeth annisgwyl Mrs Eirlys Mason Hughes, Bryngwyn, nos Wener Ebrill 4ydd. Hannai o hen deulu parchus o ardal y Tincer. Bydd colled fawr ar ei hôl. Cydymdeimlwn â'r meibion Myrddin ac Aneirin a'u teuluoedd, a chyda'r holl berthnasau sy'n byw yn yr ardal.

### Rhaglen Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Hoffai Mrs Marion Jones ac Edwina Davies ddiolch yn fawr am yr holl alwadau ffon, llythyrau, cardiau a chyfarchion maent wedi eu derbyn ers darlleniad o'r rhaglen ar Sul y Mamau. Pleser i ni yw deall bod cymaint wedi mwynhau gwylio a gwrando ar ein dewisiad o emynau. Hyfryd oedd cael croesawu Rhys Meirion, Rhodri Darcy a'r criw ffilmio i'n cartrefi ac i Ben-bont Rhydybeddau.



Llun: Arvid Parry-Jones

Gronw Fychan Downes, Glanrafon enillodd yr unawd offerynnol gynradd nos Wener yn Eisteddfod Penrhyn-coch

y tincer

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

GWASANAETH GARDDIO MYNACH
Torri Porfa, Torri Gwrych a Strimmio, Disgownt i Bensiynwyr.
Ffôn 01974 261758
07792457816
(Nid oes yr un gwaith yn ormod)

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

TACSI EDDIE
Perchennog:
Connie Evans,
Gwawrfryn,
Penrhyn-coch
01970 828 642
07790 961 226

ytincer@googlemail.com

# Cyngor Cymuned Trefeurig

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 25 Chwefror 2014, yn Neuadd Penrhyn-coch gyda'r Cadeirydd, Tegwyn Lewis, yn y gadair. Roedd Edwina Davies, Dai Mason (Cynghorydd Sir yn ogystal), Dai Rees Morgan, Gwenan Price, ac Eirian Reynolds yn bresennol ynghyd â'r Clerc. Roedd ymddiheuriadau wedi eu derbyn gan y cynghorwyr eraill.

Materion yn codi – Taflu Sbwriel: roedd y Clerc wedi derbyn cydnabyddiaeth gan y Cyngor Sir ei fod am ddelio â'r mater; Maes Seilo: roedd ymateb wedi dod oddi wrth Phil Bradley, Tai Ceredigion, ynglŷn â'r llefydd parcio ac roedd mewn trafodaeth gyda Steve Williams o Adran Priffyrdd y Cyngor Sir. Disgwylid clywed rhywbeth gan Steve Williams yn fuan.

Cynllunio – A130997, cais wedi ei ganiatàu i ddymchwel estyniad un llawr yn Pant-glas, Cwmsymlog, a chodi estyniad dau lawr gyda ystafell wydr yn ei le. A140096, cais i ddefnyddio tir i'r dwyrain o Glanseilo fel maes chwarae/ardal hamdden mewn cysylltiad â'r datblygiad tai a fwriedir ar y tir cyfagos. Dim sylwadau.

Materion eraill – Y Gofeb: nodwyd fod angen peintio'r ffens o gwmpas y Gofeb, a phenderfynwyd y byddai rhai o'r aelodau yn gwneud hynny yn ystod yr haf. Tyllau yn y ffyrdd: y Clerc i gysylltu unwaith eto â'r Cyngor Sir i dynnu sylw at y tyllau niferus sydd yn y ffyrdd yn yr ardal. Tir gyferbyn â Chapel Horeb: gofynnodd Eirian Reynolds a fyddai modd cysylltu â'r Cyngor Sir i ofyn iddynt ystyried darparu lle parcio ar y tir glas gyferbyn â Horeb, a chytunwyd i hyn. Parcio: roedd rhai wedi cwyno fod car yn parcio'n aml ger y fynedfa i Glan-ffrwd, gyferbyn â Brondderw, ac yn achosi rhwystr i bobl; y Clerc i adrodd i'r Heddlu.

Ni chynhaliwyd cyfarfod ym mis Mawrth gan fod y Clerc i ffwrdd, ond bydd cyfarfod mis Ebrill yn gynnar, ar 8 Ebrill.

GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerig mán
01970 820149
07980 687475

# Awstralia

Bum yn ddigon ffodus i ennill Cymrodoriaith Winston Churchill yn Ionawr 2013. Roedd hwn yn golygu gwneud cais ysgrifenedig i Ymddiredolaeth Winston Churchill, ynghyd a chyfweliad yn Llundain, er mwyn gweld a fyddai fy nghynnig i fynd i Awstralia i wneud gwaith ymchwil ar faterion tybaco ac alcohol yn llwyddiannus.

Dwi'n gweithio i Gyngor Gwynedd fel Rheolwr Datblygol Byw'n Iach, ac mae rhan o'r swydd yn golygu ceisio lleihau'r nifer sydd yn ysmygu a cham ddefnyddio alcohol. Roeddwn felly yn awyddus i fynd i wlad sy'n arwain yn y meysydd yma, er mwyn gallu dysgu o arfer da a mabwysiadu dulliau newydd o weithio yng Ngwynedd. Yn ffodus, bum yn llwyddiannus gyda'm cais, ac ar ôl misoedd o drefnu a chreu cysylltiadau allan yn Awstralia, roeddwn ar yr awyren yn hedfan tuag at Awstralia yn Ionawr 2014 am bedair wythnos. Roeddwn yn lwcus iawn hefyd i gael cwmni fy ffrind agos Meinir Jones, Garn Isaf, Bow Street, a'i nai Alun Jones, Garn Rhos, Bow Street, am dair wythnos o'r daith.

Dros gyfnod o fis, gwnaethom deithio canoedd o filltiroedd yn dilyn y rhaglen roeddwn wedi ei gynllunio, a oedd yn gweld ni'n mynd o Brisbane i Cairns, i Sydney, Melbourne a Canberra. Roedd yn fraint i mi gyfarfod cyd weithwyr o Awstralia sydd yn gweithio yn yr un maes, a gweld sut yr oedden nhw'n llwyddiannus yn eu nod o leihau'r nifer sy'n ysmygu ac yfed yno. Mae Cymru yn dechrau gwneud mwy a mwy o lefydd yn ddi fwg (fel parciau chwarae , bwytai, tafarnau e.e.), ond mae Awstralia blynyddoedd o'n blaen yn y gwaith yma, ac yn gwahardd ysmygu mewn nifer o lefydd megis caeau chwaraeon, o flaen adeiladau cyhoeddus, parciau, prifysgolion, mae'r rhestr yn mynd ymlaen ac ymlaen. Mae hyn, ynghyd a chyflwyno pecynnau sigarennau plaen, wedi gostwng y nifer sy'n ysmygu yn Awstralia i 16% (mae'r ffigwr yn sefyll tua 24% yng Ngymru).



Bum yn ffodus iawn i weithio gyda pobl sy'n ceisio lleihau'r nifer y brodorion sy'n ysmygu, oherwydd yn yr ardaloedd yma, mae oddeutu 1 mewn 2 oedolyn yn ysmygu. Mae yna hefyd broblem alcohol gyda'r boblogaeth yma, gyda'r Llywodraeth yn Awstralia yn gwahardd alcohol i ddod mewn i'r ardaloedd yma, oherwydd ei fod yn cyfrannu tuag at nifer o faterion gwrth gymdeithasol, fel trais yn y cartref. Mae hyn yn achosi pobl i smyglo alcohol mewn i'r ardaloedd yma yn gyfrinachol, a'u gwerthu ar y farchnad ddu.

Ar ôl gweithio yn y diwrnod, roedd yna amser i ymlacio, ac yn sicr, uchafbwynt y trip oedd snorclo gyda'r pysgod yn y Great Barrier Reef. Roedd y lliwiau a'r profiad yn anhygoel. Uchafbwynt arall oedd teithio ar y Great Ocean Road i weld y 12 Apostol yn sefyll allan yn y môr. Daeth y trip i ben yn llawer rhy fuan, ac roedd hi'n braf iawn deffro a gweld haul bron bob bore! Er nad yw'r erthygl yma yn cyfleu'r hyn wnaethom i gyd, dwi'n gobeithio ei fod yn rhoi braslun o'r amser bythgofiadwy gawsom ar ochr arall y byd.

**Cerys Humphreys**

# O'r Cynulliad – Elin Jones



Mae materion trafnidiaeth yn yr ardal hon wedi bod yn cael dipyn o sylw'r Cynulliad yn ddiweddar. Roeddwn yn falch iawn fod Simon Thomas, AC y Gorllewin a'r Canolbarth, wedi llwyddo i gael dadl am ailagor y linell rheilffordd o Gaerfyrddin i Lambed, Tregaron ac Aberystwyth ar agenda'r Cynulliad. Roeddwn yn falch o'i gefnogi, ac rwy'n cadw mewn cyswllt gyda'r grŵp sydd wedi ei sefydlu er mwyn ymgyrchu ar y pwnc yma. Wrth gwrs, mae'n syniad fydd yn cymryd cryn amser i'w wireddu, a doedd ymateb Llywodraeth Cymru i'r dadleuon ddim yn arbennig o frwd y tro hwn. Ond mae nifer o resymau pam yr wyf i'n credu fod yna gyfle i wthio'r syniad yma.

Ceir nifer o enghreifftiau llwyddiannus iawn erbyn hyn o adfer llinellau a gaewyd yn y 60au. Mae'r nifer o deithwyr ar linell Glynebwy ers ei ail-agor yn 2008 wedi bod y tu hwnt i bob disgwyl. Hefyd, mae lein wledig 'Waverley' yn ne'r Alban yn agor y flwyddyn nesa. Byddai'r gost o weld trenau eto'n rhedeg trwy Langybi, Llanilar ac Ystrad-fflur yn sylweddol wrth gwrs. Ond byddai cynllun o'r fath yn ddefnydd llawer gwell o'r pwerau benthyg newydd yr y'n ni'n gobeithio ddaw i'r Cynulliad na ffordd osgoi newydd yr M4 yng Nghasnewydd, ac mae pob tegwch yn dweud y dylai Cymru dderbyn cyfran o'r biliynau sydd i'w gwario dros y blynyddoedd nesaf ar gynllun trenau HS2. Mae Jonathan Edwards AS ac eraill yn ymgyrchu ar hyn yn San Steffan, ac os am fwy o wybodaeth ar y grwp sy'n ymgyrchu dros ailagor y lein, ewch at www.trawslinkcymru.org.uk.

Gobeithio hefyd y cewn ni'n fuan – o bosib erbyn i'r golofn hon fynd i'r wasg – newyddion ar wella gwasanaethau trên ar y linell rhwng Aberystwyth a'r Amwythig. Rwyf wedi bod yn pwyso ar y Gweinidog ar y mater yma dros y misoedd diwethaf, a bu nifer yn gweithio'n galed yn yr hydref i sicrhau fod miloedd o holiaduron wedi eu llenwi fel rhan o'r ymgynghoriad. Mae'r isadeiledd yn ei le, ac mae'n hen bryd gwireddu'r addewid yma.

Mae gwasanaethau bws, wrth gwrs, hefyd yn bwysig i nifer, ac mae trafodaethau'n parhau ar sut i ddatblygu'r gwasanaethau allweddol a achubwyd yn dilyn ymadawiad Arriva. Cyhoeddwyd adroddiad annibynnol yn ddiweddar oedd yn argymell i wasanaethau dros bellter hir, fel y rhai rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin a rhwng Aberteifi ac Aberystwyth, alw mewn llai o bentrefi oddi ar y ffordd fawr er mwyn cyflymu siwrneau. Beth yw barn pobl Ceredigion ar hyn? Cofiwch fod croeso i chi gysylltu gyda mi unrhyw bryd ar faterion trafnidiaeth neu unrhyw bwnc – ar elin.jones@cymru.gov.uk neu drwy gysylltu gyda'm swyddfa ar 01970 624 516.

# y tincer

## Pasg Hapus i chi gyd


**ANIFEILIAID TEW**
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
**TEGWYN LEWIS**
**01970 880627**

**Gwaith Bricio**
**R+R**
Adeiladau newydd, Estyniadau, Gwaith Carreg, Patios
Rhod: 07815121238
Rich: 07709770473

**SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH**
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
7 y bore - 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
**01970 828312**

**Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch**
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

**GWASANAETH CYFIEITHU**
**Linda Griffiths**
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
**01970 828454**
lindagriffiths01@btinternet.com

**Iwan Jones**
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

Pennau
COFFI BOREUOL
BYRBRYDAU POETH NEU OER
CINIO
TE PRYNHAWN
CREFFTAU AC ANRHEGION
Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi
(fel arall, ar gau ar ddydd Llun)
Siop **Treasures**, Tlysau a gemwaith (yn cynnwys dylunwyr Cymreig), scarffiau a chyfwisgoedd priodasol.
Caffi 01970 820 050 | Siop Treasures 01970 820 122

# BOW STREET

**Oedfaon y Garn 10.00 a 5.00**
**Gweler hefyd http://www.capelygarn.org/**

**Ebrill**
20 Oedfa'r Ofalaeth Pasg
27 John Tudno Williams

**Mai**
4 Elfed ap Nefydd Roberts
11 Y Gymanfa Ganu – Bethel, Aberystwyth 10.00 a 5.30
18 Bugail
25 Goronwy Prys Owen

**Noddfa**

**Ebrill**
20 10.00 a 2.00 Oedfa Undebol Sul y Pasg ym Methel, Tal-y-bont
27 2.00 Gweinidog Cymundeb

**Mai**
4 10.00 Uno yn y Garn
11 Gymanfa am 10.00 a 5.30 ym Methel, Aberystwyth
18 10.00 Uno yn y Garn. Gwasanaeth Cymorth Cristnogol
25 10.00 Trefn Lleol

### Gwellhad buan

Dymunwn welhad buan i Felicity Pugh, Maes Ceiro

### Croeso

Croeso cynnes i Medi a Paul Jones-Jackson a'r ferch fach Anest sydd wedi symud i Garn Villa o Aberystwyth. Mae Medi yn gweithio yn y Cyngor Llyfrau a Paul yn y Llyfrgell Genedlaethol.

Croeso cynnes hefyd i Tokomo ac Ywain Tomos sydd wedi symud i 7 Maes Ceiro.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Lisa a Mei Roberts, 6 Y Ddôl, ar farwolaeth mam Lisa –Auriel Fenton – yn Aberystwyth.

Hefyd a Rhian Jones-Steele a'r teulu, Maes Afallen a Wyn Lewis, Hafan, a'u teuluoedd ar farwolaeth eu mam - Megan Lewis yn Llambed.

### Taith bell

Bu Rheinallt, Sarah ac Ela, Maes Ceiro, ar daith i ben draw'r byd y mis diwethaf – i Seland Newydd ar gyfer priodas aelod o





deulu Sarah. Roeddynt wedi gwirioni efo'r wlad a chafodd Rheinallt gyfle i bysgota yn Llyn Taupo gan ddal y pysgodyn yma – brithyll seithliw gwyllt yn pwyso ca 2 ½ pwys! Llyn Taupo ar Ynys y Gogledd yw llyn mwyaf Seland Newydd ac mae'n gyrchfan dwristaidd hynod boblogaidd.

### Merched y Wawr

Ym mis Chwefror croesawodd Mrs Marian Beech Hughes, ein Llywydd, pawb i'r cyfarfod. Nodwyd dymuniadau gorau'r aelodau i Mrs Mair Lewis, a oedd yn gwella'n dda ac yn gobeithio bod yn ôl yn ein cyfarfodydd yn y dyfodol agos; Mr a Mrs Alan Wynne Jones, yn dilyn salwch eu mab a hefyd i ŵr Mrs Mair Davies a oedd yn



**Llongyfarchiadau i Gwenno Fflur Henley ar dderbyn Gwobr Aur Dug Caeredin. Buodd ym Mhalas St James yn Llundain ar y 5ed o Fawrth yn derbyn ei thystygrif. Mae Gwenno yn wyres i Peter a Dinah Henley.**

anhwylus ar hyn o bryd.

Diolchodd Marian i Mrs Janet Roberts am drefnu'r noson i Ganolfan y Celfyddydau er mwyn gwylio drama Blodeuwedd, hen stori Gymraeg Saunders Lewis.

Croesawyd Mrs Megan Roberts Davies, Tlysau Bach, a'i mab, a phrofodd i fod yn gynorthwyydd defnyddiol iawn ar y noson, i'r cyfarfod. Rhoddodd Megan amlinelliad byr o'i gwaith a sut dechreuodd hi gyntaf ar wneud eitemau bach o emwaith i'w gwerthu i'r cyhoedd. Nododd Megan ei bod hi bellach yn ymgynnull arddangosiadau a oedd yn profi i fod yn boblogaidd. Yna rhoddwyd cyfle i'r Aelodau i greu gemwaith eu hunain a oedd yn lliwgar a dychmygus iawn.

Diolchodd Mrs Joyce Bowen i Megan a'i mab am ddod i'r cyfarfod a rhoi cyfle i'r Aelodau i greu breichledau.

Mrs Jean Davies oedd enillydd y raffl ar gyfer mis Chwefror.

Dechreuodd Mawrth gyda'r Aelodau yn dathlu Dydd Gŵyl Ddewi yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth, gyda chawl a tharten afal a hufen ac yna adloniant gan Angharad Fychan a'i Ffrindiau. Mwynhaodd yr aelodau noson o gerddoriaeth a llefaru pleserus iawn.

Llongyfarchwyd ein Llywydd i Mrs a Mrs Gwyn Jones a Mr a Mrs Ieuan Davies a oedd yn dathlu eu pen-blwyddi Priodas Aur yn ystod fis Mawrth.

Diolchodd Mrs Gwenda Edwards i Angharad Fychan a'i Ffrindiau am eu cyfraniad at y noson.

### Capel y Garn

**Eisteddfod Fach Ni**

Yng nghyfarfod mis Mawrth o'r

Gymdeithas Lenyddol cynhaliwyd eisteddfod fach yn Ysgoldy Bethlehem. Pedair cystadleuaeth oedd ar y rhaglen, sef Darn o Ryddiaith dim mwy na chan gair o hyd ar y testun Stormydd, dau bennill ar y testun Cadair, llinell gyntaf limrig i'w chwblhau, a brawddeg ar y gair Gwynfor. Mwynheuodd pawb swper o gawl blasus i ddechrau ac yna cyflwynodd Gareth Wiliam Jones y beirniad, Arwel Rocet Jones. Ar ôl canmol safon cyffredinol y gwaith roedd e wedi ei dderbyn fe ddyfarnodd Eddie Jenkins yn gyntaf am y darn o ryddiaith, Dilys Jones am y ddau bennill, Vernon Jones am y limrig, a Janet Roberts am y frawddeg.

### Enillwyr Clwb 300 Clwb Pêl-droed Bow Street

**Rhagfyr 2013**
£30 - Richard Lucas
£25 - Rob Bates
£15 - Rachael Rowlands
£10 - Menna Manley
£5 - Manon Curley

**Ionawr 2014**
£30 - Nat Burrell
£25 - James Scarrott
£15 - Steff Davies
£10 - Pam Evans
£5 - Dean Evans

**Chwefror 2014**
£30 - Ian Frost
£25 - Gwyn Evans
£15 - Dylan Raw Rees
£10 - Gerwyn Evans
£5 - Ann Williams

**Mawrth 2014**
£30 - Richard James
£25 - Joel Dixon
£15 - Cerys Hurford
£10 - Peter James
£5 - Elen Ifans

### O'r ysbyty

Da clywed fod Gethin Wynne Jones, Dolgellau, adref allan o'r ysbyty. Bu'n meddyliau gyda Alan Wynne ac Ann Jones, a'i deulu yn ystod y misoedd diwethaf.

### Y Chwiorydd

Bu Cymdeithas y Chwiorydd ar ei thrip te prynhawn blynyddol ar Ebrill 3ydd. Castell Glandyfi oedd y dewis eleni. Cafwyd cyfeillach bleserus wrth fwynhau'r dewis danteithiol helaeth o frechdanau a chacennau. Hwn oedd cyfarfod cloi tymor 2013-2014. Bydd y cyfarfod busnes blynyddol yn cael ei gynnal brynhawn Iau, Mai'r 7fed, yn festr'r Garn.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn gydag Auriel Evans, Trewylan, a'r teulu ar farwolaeth mam Auriel – Eluned Morgan o Benrhyn-coch yn Ysbyty Tregaron ar 7 Ebrill. Cynhelir yr angladd dydd Mawrth 15 Ebrill yn Eglwys Sant Ioan.

## LLANGORWEN / CLARACH

### Plant lleol yn cyrraedd uchelfannau y byd seiclo

Yn ystod tymor 2013/14 mae tri disgybl o Ysgol Rhydypennau wedi bod yn rhagori ym maes seiclo ar lefel Cymru a'r Deyrnas Unedig. Mae Griff Lewis a'i chwaer iau Alaw ynghyd ag Owen Huw Evans wedi bod yn gwneud enw iddyn nhw eu hunain ac i'r ardal mewn nifer o wahanol ddisgyblaethau seiclo. Yn nisgyblaeth cyclo-cross (seiclo beiciau lôn â theiars â rhychau ynddyn nhw ar wair, gyda rhwystrau ac elltydd), enillodd Griff Bencampwriaethau Cymru yn Llanfair-ym-Muallt yn y categori dan 10 oed, gan guro llawer o seiclwyr cryf iawn. Daeth Alaw yn 2il yn y categori dan 8 oed a daeth Owen Huw yn 3ydd dan 12 oed, a hwythau hefyd yn curo llawer o seiclwyr cryf. Enillodd Griff hefyd Bencampwriaethau Cymru dan 10 oed yn y categori beicio mynydd ym Mharc Margam yn Hydref 2013, ar gwrs technegol iawn oedd yn heriol i'r holl seiclwyr. Yng nghanol Mawrth 2014 teithiodd Griff i Redditch yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr i gystadlu ym Mhencampwriaethau Cyclo-Cross Ysgolion Prydain, ei gyfle cyntaf i brofi ei sgiliau seiclo yn erbyn goreuon y DU. Roedd y categorïau oed ysgolion yn golygu bod Griff yn cystadlu yn erbyn bechgyn hŷn nag ef. Er gwaethaf ymdrechion dewr iawn ganddo, a bwlch o ddim ond 30 metr rhwng y 1af a'r 4ydd, a Griff yn ennill tir drwy'r amser yn y lap olaf, fe orffennodd yn 4ydd agos iawn. Dylai'r canlyniad fod yn llawer agosach y flwyddyn nesaf, pan fydd Griff yn nes at oedran y cystadleuwyr eraill.



Owen ar y chwith a Griff ar y dde




Alaw Lewis

# Cyngor Cymuned Tirymynach

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau 27 Mawrth yn Neuadd Rhydypennau o dan lywyddiaeth y Cyng. Dewi James. Estynnwyd dymuniadau gorau am wellhad buan i Mrs Shirley Hinge, priod y Cyng. Paul Hinge, ac i Mrs Felicity Pugh, priod y Cyng. Rob Pugh, y ddwy heb fod yn hwylus eu hiechyd yn ddiweddar. Llongyfarchwyd Ysgol Rhydypennau ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Ranbarthol yr Urdd, gan ddymuno'r gorau iddynt yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Bala.

Penderfynwyd awgrymu wrth drigolion Bryncastell i wneud cais i RAY Ceredigion am gyngor ar offer amgen sydd ar y farchnad ac yn llawer llai costus na'r cwmnïau arferol, ond yr un mor ddefnyddiol. Mae'r system Gwefan yn symud ymlaen yn raddol, ond nid oes orfodaeth i'w orffen cyn diwedd y mis.

Unwaith eto, syrthiodd trefniadau PACT trwyddo, hynny yn bennaf gyfrifol am na hysbyswyd y cyfarfod gan yr Heddlu. Gwneir ymholiadau am gyfarfod arall.

Adroddodd y Cyng. Paul Hinge bod clirio ffordd ger Bryngwyn Canol wedi ei wneud a bod yr awdurdodau yn ymwybodol am y rasio ceir sy'n digwydd o gwmpas ffyrdd Clarach gan farchogion y gwynt (boy racers). Mae'r manion terfynol bron a chwblhau yn ystâd Maesafallen, a buan daw'r biliau i'r trigolion yn y rhan a fabwysiadwyd.

Mae'r cais cynllunio am 27 o dai fforddiadwy ar dir i'r gogledd o Gae'r Odyn, Bow Street wedi ei dderbyn a'i gymeradwyo gan yr Adran Gynllunio. Ar fater ariannol, penderfynwyd talu £261 fel aelodaeth Un Llais Cymru am y flwyddyn gyfredol.

Adroddodd y Clerc am gyfarfod y bu ef ynddo lle'r oedd rhai o brif swyddogion Ceredigion yn egluro'r toriadau sydd i ddigwydd yn y blynyddoedd nesaf, a swm a sylwedd y cyfan yw bod newidiadau mawr i ddigwydd o dan drefn y Cyngor Sir, a gwelir y Cynghorau Cymuned yn ysgwyddo llawer mwy o feichiau. Penderfynwyd gwahodd rhai o'r swyddogion i Gyfarfod Blynyddol y Cyngor ym mis Mai. Bydd ein cyfarfod nesaf ar 24 Ebrill.

# Yn y Gwaed?

**Ydi ffydd yn rhywbeth mae rhywun yn ei etifeddu neu ai magwraeth aelwyd a chymdeithas sy'n gyfrifol amdano? Dyna gwestiwn a fydd yn cael ei holi mewn rhaglen arbennig a fydd yn dilyn taith Siôn Meredith, Maes Awel, Capel Dewi- Cyfarwyddwr Canolfan Cymraeg i Oedolion y Canolbarth ac offeiriad llëyg yn Eglwys y Santes Fair yn Aberystwyth.**

Flwyddyn a hanner yn ôl daeth Siôn i wybod pwy oedd ei deulu genedigol ar ochr ei fam ac yr oedd yn gryn sioc iddo ganfod ei fod e'n debyg iawn i'r teulu hwnnw ac yn arddel gwerthoedd a ffydd gyffelyb.

Ddiwedd 1965 oedd hi pan gafodd Siôn ei fabwysiadu gan y teulu Meredith ym Mangor ac yntau ryw chwe wythnos oed. Nigel Treanor oedd ei enw genedigol ac roedd ei fam Margaret wedi dod draw i Ddwygyfylchi yn y Gogledd gyda ffrind iddi i weithio mewn cartref Barnardos. Yn ddiarwybod i bawb o'r teulu roedd Margaret yn feichiog – fe fagodd hi'r babi am bythefnos cyn ei drosglwyddo i asiantaeth fabwysiadu Esgobaeth Bangor. Roedd tad Margaret yn offeiriad Anglicanaidd a bu'n gweinidogaethu yn Hanworth yng ngorllewin Llundain, a chyn ei farw cynnar, yn Hove ger Brighton. Bu ef farw tua'r un cyfnod â geni Siôn – a rhyw bum mlynedd wedi hynny bu Margaret ei hun farw o diwmor ar yr ymennydd a hithau ond yn 27. Roedd hi wedi priodi ac wedi ymfudo i Awstralia a Hong Kong ond dychwelodd wedyn i Surrey yn Ne Lloegr i fagu ei hail blentyn – Tim. Mae e hefyd wedi marw erbyn hyn.

Yn ffodus i Siôn roedd ei dad John Meredith sydd â'i wreiddiau yn Aberystwyth wedi gwneud ymchwil maith ar ddechrau'r 70au i gefndir Siôn. Mi gafodd y teulu genedigol gryn sioc gan na wyddent hwy ddim am fodolaeth Siôn, a'r ffrind a deithiodd gyda Margaret i Ddwygyfylchi a gadarnhaodd y stori. Doedd Siôn, hyd yn ddiweddar, ddim wedi holi llawer am ei hanes cynnar ond wrth iddo yntau fagu teulu teimlai yr hoffai ganfod ei wreiddiau.

Yn ffodus mae ei ewythr genedigol wedi cofnodi llawer o'r hanes ac yn syth roedd modd i Siôn wybod ei fod yn perthyn i deulu o offeiradon a chenhadon Gwyddelig. Yn ei ddyddiau cynnar roedd taid Siôn yn gweithio i fudiad cenhadol SAMS yn Yr Ariannin gan sefydlu eglwys yn ardal Chaco a bu ei dad yntau yn genhadwr CMS yn India. Cyd-ddigwyddiad arall yn y stori yw bod Hanworth – ardal plentyndod Margaret (mam Siôn) yn agos iawn i bencadlys Tearfund yn Teddington – man y bu Siôn yn ymweld ag e yn rheolaidd iawn yn ystod ei waith gyda'r elusen.

Mewn rhifyn arbennig o *Bwrw Golwg* a ddarlledir ar **BBC Radio Cymru am 8 o'r gloch fore'r 4ydd o Fai** fe fydd Siôn yn mynd ar daith i ganfod ei wreiddiau. Fe fydd y rhaglen yn mynd ag ef i weld bedd ei fam yn Hove am y tro cyntaf. Fe fydd e hefyd yn mynd yng nghwmni ei ewythr i weld cartref



Siôn a'i ewythr Dave Treanor o flaen Rheithordy Hanworth



Siôn wrth fedd ei mam yn Hove ger Brighton

plentyndod ei fam yn rheithordy Hanworth ac yn mynd o gwmpas yr ystafelloedd i gael blas ar y dyddiau cynnar. Dilynir Siôn, ymhellach, wrth iddo fynd i wasanaeth yn Eglwys Hanworth lle y mae'n cael cyfle i siarad â ffrind ysgol i'w fam a phobl a oedd yn cofio ei daid. Cafodd y cyfan ei recordio ar Sul y Mamau. Yn ail rhan y rhaglen fe fydd trafodaeth ar etifeddiaeth a magwraeth a pha un sy'n ein gwneud yr hyn yr ydyn ni.

'Fe fwynheais y daith i ganfod fy ngwreiddiau yn fawr, meddai Siôn, ac y mae'n sicr wedi dod a fi'n nes at fy mam enedigol

Gwesty'r Llew Du
Black Lion Hotel

DÊL CINIO
2 GWRS - £9.95
3 CHWRS - £13.95
BETH AMDANI . . .
MERCHER - SADWRN
12 TAN 3 Y PNAWN
01970 832 555
croeso@gwestyllewdu.com
* yn amodol ar argaeledd


# y tincer



Margaret Treanor – mam enedigol Siôn

ac yn peri i mi ofyn llawer o gwestiynau'. Ond meddai Siôn, 'dyw'r profiad ddim yn fy mhellhau wrth y teulu sydd wedi fy mabwysiadu – wedi cyfoethogi fy mywyd y mae'r profiad.'

Cynhyrchir y rhaglen gan gwmni Mynydd Bach o Aberystwyth ar gyfer BBC Radio Cymru.

Bwrw Golwg – 8.00 – bore Sul – 4ydd o Fai

Am fwy o fanylion cysyllter â'r cynhyrchydd Sarah Down-Roberts – 07773 470649

# Colofn Mrs Jones

Y mae ym mhob un ohonom nofel, medd yr hen air, ond nid yw pob un ohonom yn ei hysgrifennu, mae'n amlwg. Ond nofel yw'r gair, rhyddiaith nid barddoniaeth. Ac os yw'ch perthynas yn ysgrifennu rhyddiaith, nid oes neb yn cymryd yn ganiataol y medrwch chithau wneud hefyd - ond os yw'r perthynas yn fardd, fe gred pawb y medrwch chithau farddoni llinellau yn ffri. Un rheswm am y gred hon yw fod yna sawl teulu barddol i'w cael, rheswm arall yw ei bod hi yn bosibl i unrhyw un ddysgu cynganeddu a hynny yn gywir. Yn wir, oherwydd teithi'r iaith, y mae pob un ohonom wedi cynganeddu rywdro yn ei oes. Ond un peth ydi medru dysgu cynganeddu, peth arall yw bod â'r awen angherheidiol i fod yn fardd. A fe wn i yn ddigon da nad ydw i yn fardd. Fe fedraf ysgrifennu cerdd sydd yn gwneud y tro ar gyfer cadeirio Eisteddfod Penrhyn-coch ac ambell i achlysur arall ond nid yw yn broses hawdd ac nid yw yn cynhyrchu stwff y buaswn yn ei gynnwys mewn casgliad o'm gwaith pe gofynnid i mi gronni y fath beth. Er byw yma ers blynyddoedd bellach, mi rwyf yn fwy o Fardd Cocos nag o Ddafydd ap Gwilym.

Pan welai Meirion fi yn ceisio barddoni ar gyfer yr eisteddfod, fe ofynnai, yn rhesymol ddigon, paham na ofynnwn i Gwynn ysgrifennu cerdd drosof. Ond y mae veto ar hynny. Fe fyddaf yn gofyn i Gwynn ysgrifennu cyfarchion i bobl yn achlysurol ac er nad yw erioed wedi gwrthod, rhyw wneud dan ei guwch dan gwyno nad yw'n beiriant sosejis y mae....a byddai perygl i rhywun feddwl mod i yn fardd a'm gwahodd i ymuno â thim ymryson. Ac os oes sawl dalen o bapur a llawer cno ar feiro yn mynd i un gerdd, byddai fforestydd cyfain yn mynd dan amodau ymryson. Fy unig gysur yw na fyddwn ar y tîm yn hir cyn iddynt weld fod yn rhaid i mi fynd os oeddynt am ennill!

Ar ben hyn, mae hi yn rhan o'r anrhydedd teuluol fod pawb yn torri ei gwys ei hun wrth ysgrifennu. Fe roddai fy nhad a fy mam gynghorion a golygiaeth ond roedd yn rhaid i'r gwaith fod yn wir waith yr awdur ei hun ac y mae Gwynn ac Ifor a minnau yn glynu at hynny hyd heddiw. Fe ŵyr Gwynn beth sydd gennyf i ar y gweill, fe wn innau beth sydd yn nyddu ym Mhenarth, hyd y gwn i, nid oes gan Ifor ddim mewn golwg ond gan fod ganddo ofalaeth bron cymaint ag ambell i esgobaeth, efallai nad oes ganddo amser. A mae campau ei wyres fach a chath deircoes ei ferch yn difyrru llawer arno.Y mae y gath yn faes rhyfeddod arbennig a bod yn onest, y mae Hector yn chwim ond mae ganddo ef ei bedair pawen, tair sydd gan hon ac y mae ym mhob peth ac yn dringo llenni fel mwnci. Fe fabwysiadwyd y gath ar ei thair, yr oedd wedi colli ei choes yn ddyddiau oed yn ôl yr RSPCA, ac efallai mai dyna paham ei bod cystal ond mae hi yn rel wimblad..a beth yw wimblad? Wel,'awl 'cobler a mae cobler yn pwytho mor sydyn efo hanes i'r gair ddod yn symbol am blentyn aflonydd neu sydyn...wrth feddwl, fe alwid yr hen Ifor ei hun yn wimblad lawer gwaith pan oedd o yn iau ag aflonydd. Go brin, fodd bynnag, fod Ifor yn meddwl ysgrifennu bywgraffiad y gath, er ei fagu mewn teulu catholig da, nid yw yn hoff o gathod, fel llawer i dad a gŵr, ildio yn dawel i ddymuniadau ei wraig a'r plant y mae. Y mae hynny yn haws yn y pen draw!

Gan ddymuno Pasg hapus a bendithiol i bawb..


Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
01970 820124
07709 505741

SWYDDFA'R POST
BOW STREET
NWYDDAU MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

eich gwefan leol
www.trefeurig.org
your local website
newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org
William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

**Gwasanaethau Capel Pen-llwyn Mis Mai**

4 Sul y teulu. 10.00
11 Y Gymanfa Ganu. Bethel Aberystwyth 10.00 a 5.30
18 Dr John Tudno Williams 2.00

Dymunwn pob rhwyddineb i'n gweinidog yn yr India, a siwrne gartref ddiogel iddo. Edrychwn ymlaen i glywed yr hanes.

### Penillion

Daethpwyd o hyd i'r penillion canlynol, a gafwyd yn wreiddiol gan y ddiweddar Mrs Enid Vaughan, hithau wedi eu gweld mewn hên rifyn o *Trysorfa'r Plant*. Cafwyd eu defnyddio droeon yn yr Ysgol Sul, amser hir yn ôl.Trueni na fuasem yn gwybod enw yr awdur.

Pe caret weld y byd yn well,
Heb sôn am fraw na bomiau,
Paid dweud wrth BAWB am fod yn dda,
Bydd Di yn dda i ddechrau

Pe caret weld y byd yn ddoeth,
A phawb yn pwyso'u geiriau,
Paid dadlau nes dy fod yn boeth
Bydd DI yn ddoeth i ddechrau.

Pe caret weld pob dyn yn frawd
A'r du a gwyn yn ffrindiau,
Paid codi'th ben yn uwch na phawb:
Bydd DI yn ffrind i ddechrau.

Pe caret weld torfeydd yn mynd
I'r capel ar y Suliau,
Paid sôn wrth bawb am Ysgol Sul:
Dos DI i'r cwrdd i ddechrau.

Pe caret weled Iesu Grist
Yn derbyn clod emynau,
Paid ag anghofio tonau'r plant:
Rho DI dy fawl i ddechrau.

Pe caret weld holl blant y byd
Yn hyddysg yn eu Beiblau,
Paid byth sarhau dy Feibl bach:
Dysg DI dy salm i ddechrau.

Cans rhai fel NI fu'n trefnu'r byd
Ar hyd y cenedlaethau,
Ac fe gawn drefn, tra dwed bob un:
"Gwnaf FI fy rhan i ddechrau"

### Cydymdeimlad

Cofiwn am deulu Auriel Fenton a hunodd yn dawel yn ei chartref yn Llangawsai, ar Fawrth 31ain. 'Roedd yn athrawes dda iawn yn ysgol Pen-llwyn yn y saithdegau.

### Dymuniadau Gorau

Pob dymuniad da i Rhian Ellis, Cefnmelindwr, ar achlysur ei phriodas yn ddiweddar.

### Merched y Wawr Melindwr

Bu'r gangen yn dathlu Gŵyl Ddewi eleni yn Y Sosban Fach yn Aberystwyth a'r lle wedi ei addurno'n hyfryd ar gyfer yr achlysur. Braf oedd gweld fod pob aelod o'r gangen yn bresennol gan gynnwys y ddwy a dderbyniodd lawdriniaeth yn ddiweddar. Cyfeiriodd y llywydd at farwolaeth cyn-aelod o'r gangen a fu'n ffyddlon iawn i'r cyfarfodydd am nifer fawr o flynyddoedd hyd at yn ddiweddar, sef Mrs Eirlys Davies, Caehaidd. Estynnodd Beti Daniel, y llywydd groeso cynnes i bawb ac yn arbennig i'n gwesteion. Gofynnwyd bendith ar y bwyd gan Heulwen Lewis ac yna mwynhawyd cawl, tarten afalau, picen ar y maen a chwpanaid o de neu goffi yn ogystal â sgwrs. Yn dilyn y wledd honno cafwyd gwledd arall, sef gwledd o gerddoriaeth a gyflwynwyd gan Meinir Williams a'i mam Brenda. Cafwyd unawdau ar y delyn deires gan Meinir, ac ymunodd Brenda Williams â'i merch i greu deuawd drwy ganu'r ffliwt. Cyn diwedd y noson cafodd y delyn deires ei chyfnewid am y ffidil ac unwaith eto ni chafodd y gynulleidfa eu siomi.

Diolch i'r aelodau a gyfrannodd wobrau raffl ar gyfer y noson. Fe'u henillwyd gan Aerona Armitage, Beti Daniel, Mary Jones, Ann James, Heulwen Lewis a Meinir Williams. Diolchwyd yn gynnes i Meinir a Brenda am ein diddori ac i berchnogion y Sosban Fach am y bwyd.

I Aberystwyth yr aethom eto ar gyfer ein cyfarfod mis Ebrill a'r tro hwn y man cyfarfod oedd Canolfan Alun R. Edwards, sef llyfrgell y dref. Yno i'n cyfarfod a'n croesawu roedd Gareth Griffiths, Llyfrgellydd y sir. Aed â ni o amgylch y llyfrgell ac ni fydd unrhyw esgus gan unrhyw un oedd yn bresennol nad yw'n gwybod ei ffordd o amgylch. Yna, cafwyd cyfle i eistedd wrth i Gareth Griffiths fynd â ni ar daith arall – y tro hwn taith o amgylch gwefan y llyfrgell a gawsom lle gwelsom yr amrywiaeth mawr o wasanaethau a gwybodaeth sydd ar gael yn hwylus heb symud cam o'n cartrefi. Bellach nid oes angen ymweld â'r llyfrgell er mwyn adnewyddu'r eitemau sydd






Rydym ni wedi bod yn brysur yn y Cylch yn gwneud pethau ar gyfer y Pasg. Dyma ein coeden ni wedi ei haddurno gyda wyau Pasg lliwgar.



Mae tri o blant Cylch Pen-llwyn yn gadael i fynd i'r ysgol ar ôl y Pasg. Pob lwc i Rhydian, Sara Mair ac Erin yn yr ysgol fawr!

gennym ar fenthyg oddi yno. Yn wir nid oes angen mynd i'r llyfrgell er mwyn darllen cylchgronau a llyfrau - gellir lawrlwytho rhai ohonynt ar gyfrifiaduron a theclynnau electronig yn ein cartrefi. Diolchodd Beti Daniel i Gareth Griffiths am ei gyflwyniad. Aed o Ganolfan Alun R. Edwards i Westy'r Belle Vue ac yno mwynhawyd lluniaeth oedd wedi ei baratoi ar ein cyfer, diolch i drefniadau'r swyddogion.

### Neuadd Pen-llwyn

Cyfarfod Blynyddol Neuadd Pen-llwyn – Nos Fercher Mai 28ain – 8pm. Croeso i bawb!

### Canlyniadau Clwb 100 y Neuadd

**Chwefror:**
51 M Phillips
96 Eifion Thomas
43 Wynne Jones
5 Ann Louise Howells

**Mawrth:**
2 Nia Evans
46 John Armitage
40 Pauline Pugh
89 Janet James

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

DIGWYDDIADAU MORLAN:

• Iesu, yr aberth sy'n maddau (7.30, 9 Ebrill). Y sesiwn olaf o gwrs a arweinir gan Enid Morgan. Trefnir gan y grŵp C21 lleol.

• Ethics, empathy and imagination: Dr Rowan Williams (7.30, 25 Ebrill). Darlith Flynyddol Morlan 2014. Cadeirydd: Parch. John Tudno Williams. Tocynnau: £5 – archebwch yn fuan! Ar gael o swyddfa Morlan yn ystod oriau swyddfa.

**Manylion llawn ar wefan Morlan:**
www.morlan.org.uk
Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth
SY23 2HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com

## MADOG, DEWI A CEFN-LLWYD

**Oedfaon Madog 2.00**
**Gweler http://www.capelygarn.org/**

**Ebrill**
20
27 John Tudno Williams

**Mai**
4 Elfed ap Nefydd Roberts
11 Y Gymanfa Ganu – Bethel, Aberystwyth 10.00 a 5.30
18 Bugail
25 Goronwy Prys Owen

### Pen blwydd hapus

Dymuniadau gorau i Mrs Myfanwy Pugh, Fronddewi, fydd yn dathlu ei phen blwydd yn 80 oed ar 16 o Ebrill.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Tegwyn ac Aldwyth Lewis, Rhos-goch ar golli brawd yng nghyfraith, hefyd Angharad ac Andrew Rowlands, Talar Deg ar golli ewythr, Mr Defi Evans o Ddôl-y-bont.

# Myfyrdod y Pasg

Wyddoch chi beth oedd y geiriau cyntaf i'r Iesu eu llefaru wrth y disgyblion wedi'i atgyfodiad?

Ai geiriau buddugoliaethus oeddent, tebyg i'r canlynol: "Halelwia! Rwyf wedi gorchfygu marwolaeth ac wedi trechu'r bedd," gyda sain ffanffer i'w chlywed yn y cefndir a llu o angylion yn canu'n nefolaidd o'i gwmpas? Neu efallai iddo ddweud rhywbeth fel hyn, "Henffych well gyfeillion! Gwelwch gymaint yr wyf i wedi dioddef trosoch, yr hen bechaduriaid gwael!"

Naddo'n wir a diolch am hynny! Wrth ddarllen yr hanesion am ymddangosiadau'r Crist atgyfodedig, sylweddolwn yn fuan iawn mai geiriau digon di-fflach a di-gyffro oedd ei eiriau ar y Sul y Pasg cyntaf hwnnw.

Yn yr efengyl yn ôl Mathew geiriau cyntaf yr Iesu wrth ei ddisgyblion oedd, "Henffych well...Peidiwch ag ofni, ewch a dywedwch wrth fy mrodyr am fynd i Galilea, ac yno fe'm gwelant i." Ei eiriau yn yr efengyl yn ôl Luc wrth y ddau oedd ar y ffordd i Emaus oedd, "Beth yw'r sylwadau hyn yr ydych yn cyfnewid wrth gerdded?" Ac yn yr efengyl yn ôl Ioan, holodd Iesu gwestiwn wrth ddod wyneb yn wyneb â'r Mair ddagreuol, "Wraig, pam yr wyt ti'n wylo?"

Er bod ei eiriau'n ymddangos yn ddigon di-gyffro,y mae un peth yn gyffredin ym mhob un o'r adroddiadau amdano yn siarad am y tro cyntaf wedi'r atgyfodiad. Mae'r Crist yn cyfarfod â'i gyfeillion ym mha le bynnag y maent ac nid yw'n anwybyddu eu cyflwr emosiynol bregus. Nid yw'n dweud y drefn wrth y disgyblion am iddynt ei wadu a'i adael; nid yw'n dweud wrth y ddau ar y ffordd i Emaus bod angen iddynt droi yn ôl ar eu hunion i Jerwsalem ac i dynnu'r wep ddiflas oddi ar eu hwynebau ac nid yw'n dweud wrth Mair i sychu ei dagrau ac i ddod at ei hunan. O na! Yr hyn mae'r Iesu yn ei wneud yw siarad yn dyner ac yn dawel gyda phob un o'i gyfeillion a'i ddilynwyr gan ddangos sensitifrwydd i'w cyflwr bregus wedi'r croeshoeliad, ac o wneud hynny mae'n llwyddo i gyffwrdd â chalonnau bob yr un ohonynt. Os oedd ei eiriau cyntaf wedi'r atgyfodiad yn rhai di-fflach a chyffredin roeddent yn eiriau a lwyddodd i gyfleu grym iachusol yr Atgyfodiad mewn ffordd dyner a sensitif a oedd yn gyfrwng i adfer y berthynas rhyngddo â'i ddilynwyr.

Yn yr un modd fe ddaw atom ni heddiw yn ei wedd atgyfodedig gan ddangos yr un tynerwch a sensitifrwydd i'n holl hanghenion dwys a chymhleth a hynny er mwyn ein hadfer ninnau i berthynas gyflawn ag Ef, ein Harglwydd byw.

Pasg Hapus!

**Y Parchg Judith Morris**

y tincer Pasg Hapus i chi gyd

# DOL-Y-BONT

## Richard David Evans

Collodd yr ardal un o'i chymeriadau mwyaf cymwynasgar ac addfwyn ar farwolaeth Defi Evans, Dolwerdd ar y 24ain o fis Mawrth. Gwyddai ei gyfeillion a'i gydnabod mai gweddol oedd ei iechyd; roedd ei le wedi bod yn wag a'i wên frwd a'i sgwrs ffraeth wedi bod ar goll o gyfeillach ac oedfa oddi ar y Nadolig, ond ychydig oedd yn sylweddoli nad dros dro roedd hynny. Dioddefodd gystudd caled ond roedd y wên yn dal yno, yn enwedig i'w wyrion, William, Ianto a Macsen, a fu'n ymweld ag e yn yr ysbyty ac yn sgwrsio ag e tan ychydig oriau cyn y diwedd.

Ganwyd Defi ar Ionawr 12fed 1939 yn fab i Eluned a Lewis Evans, Ty'n Simdde, Dôl-y-bont. Hanai ei dad o'r Borth a'i fam o Drisant. Dim ond pump oed oedd pan fu farw ei dad, a'i frawd bach Ken yn ddim ond blwydd. Yn ôl pob hanes gweithiodd ei fam yn arwrol drwy ei hoes i roi magwraeth deilwng i'w dau hogyn bach. Yn ysgol gynradd yr Eglwys yn y Borth y cafodd Defi ei addysg gynradd a mynd ymlaen oddi yno i Ysgol Dinas yn Aberystwyth. Gyda rhyddhad mawr y gadawodd yr ysgol a mynd i weithio ar fferm Brynllys heb fod ymhell o'i gartref. Bu yno am ddeuddeng mlynedd, cyn symud ymlaen i fod yn yrrwr i AJ Plant lle bu am ddeugain mlynedd, gwaith a oedd wrth ei fodd gan mai dyn peiriannau oedd e, wrth ei fodd yn trin injeini ceir a thractorau ac yn wyliwr brwd o rasus ceir y Grand Prix. Trwy ei fywyd byddai wrth ei fodd yn prynu car â nam arno er mwyn ei gywiro, ac yn llwyddo bob tro.

Roedd e yn gryn arddwr hefyd, yn ei elfen yn codi llysiau a blodau, yn yr ardd ac yn y tŷ gwydr. Gallai hefyd droi ei law at baentio a phapuro a thasgiau eraill yn y tŷ. Yn ystod ei ddyddiau yn aelod o Glwb Ffermwyr Ifainc Tal-y-bont bu'n cymryd diddordeb mawr mewn aredig er nad oedd yn gystadleuydd. Yn y Clwb Ffermwyr Ifainc y daeth e i gyfarfod â Llinos Rhos-goch. Priodon nhw yng Nghapel Madog ym 1969 a symud i fyw yn Nolwerdd, y drws nesaf i Ty'n Simdde, a dyna lle cafodd Rhian a Ioan eu magu.

Aelwyd llawn croeso a gwenau cynnes fu Dolwerdd erioed, fel y gwyddai pawb fyddai'n galw yno, yn enwedig felly ei gyn-weinidog, y Parchg Elwyn Pryse, a lywiodd y gwasanaeth angladdol yn absenoldeb y Parchg Wyn Morris. Er y gynulleidfa niferus iawn y gellid bod wedi ei rhagweld, ac yn



wir a ddaeth i'r gwasanaeth, ni ellid bod wedi ei gynnal yn unman ond yng nghapel bach y Babell, Dôl-y-bont, capel Defi gydol ei oes, lle daeth yn Drysorydd ym 1978 ac yn flaenor ym 1989. Bellach ef oedd yr unig flaenor. Mae'r graen a'r cymendod sydd ar y capel heddiw yn tystio i'w ofal ef a Ken, ei frawd, o'r adeilad a olygai gymaint iddyn nhw.

Doedd dim a roddai fwy o bleser i Defi na chymdeithasu. Roedd wrth ei fodd yng nghwmni pobl, ac yn dynnwr coes heb ei ail, a'i holl gorff yn ysgwyd pan fyddai'n chwerthin. Ei hoff le yn yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn oedd y Babell Lên lle byddai'n cael blas ar wrando ar y trafodaethau a phleser mawr o siarad â phwy bynnag a ddoi i eistedd ar ei bwys.

Mae cydymdeimlad ardal gyfan â Llinos, â'r plant Rhian a Ioan a'u teuluoedd, ac â Ken a Joy, ei frawd a'i chwaer yng nghyfraith a'i gymdogion agosaf.

## Diolch

Dymuna Llinos, Rhian a Ioan, Dôl Werdd, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a chefnogaeth a gawsant dros y cyfnod diflas o golli Defi.

Diolch am y cyfraniadau ariannol sydd wedi eu derbyn drwy law Tegwyn, ac sydd dros £2,000 erbyn hyn.

Diolch i drigolion Dôl-y-bont am eu cymorth i hwyluso'r drafnidiaeth ddiwrnod yr angladd a diolch arbennig i'r Parchg Elwyn Pryse am gymryd gofal o'r gwasanaeth yn absenoldeb y Parchg Wyn Morris, ac i Angharad Rowlands yr Organyddes.

Diolch i Lewis, Geraint, Gerallt a Gwesyn am rannu y taflenni ac i Selwyn Evans am y trefnu ac am ei ofal trosom.

## Dal i wella!

Da yw gweld Sian Elin Jones o gwmpas eto yn dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty Bron-glais yn ddiweddar - dal ati i wella!

## Llun y mis

**Llun o gasgliad Iestyn Hughes, Maes-y-garn, Bow Street. Gellir gweld mwy o'i luniau ar ei wefan http://www.atgof.co/**



**Gwartheg yr Ucheldir yn pori ger Nant-y-moch**

# Dewch atom!

## Beth am wirfoddoli yn y Llyfrgell Genedlaethol?



*"Dafydd a Nel Roberts, Cae Fadog, ynghyd â Eira Rowlands, Mrs Rowlands a Emrys Rowlands, Y Gelli, yn gadael Capel Cynon, Tryweryn, am y tro olaf. "*

Ewch ati i wirfoddoli y Gwanwyn hwn! Dewch atom i'r Llyfrgell Genedlaethol a chyfrannwch at ein gweledigaeth ni o ddarparu gwybodaeth i bawb. Mae'r Llyfrgell angen eich help!

Mae cynllun gwirfoddoli'r Llyfrgell, a genfogir gan Gronfa'r Loteri Fawr, yn cynnig amrywiaeth o dasgau a phrosiectau cyffrous a diddorol, o drawsysgrifio i roi trefn ar ddarluniau a dwstio llyfrau. Cewch gyfle i ddysgu sgiliau a chwrdd â ffrindiau newydd wrth gynorthwyo'r Llyfrgell i wella ei gwasanaethau i ddefnyddwyr. Am ragor o wybodaeth, ewch i'r dudalen 'Am LlGC - Gwirfoddoli' ar wefan y Llyfrgell, neu'n well fyth, dewch i **Ffair Gwirfoddolwyr y Llyfrgell ar ddydd Iau, Mehefin 5ed rhwng 10 y bore a 4 y prynhawn.** Bydd cyfle i brofi ac i drafod yr amrywiol gyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael o fewn y Llyfrgell a thu hwnt, teithiau tywys, gweithgareddau i blant iau, a mwy!

Rydym ni ar fin lansio prosiect gwirfoddoli newydd sbon - ac os oes gennych ddiddordeb mewn digwyddiadau a phersonoliaethau Cymru'r ugeinfed ganrif - wel dyma gyfle cyffrous ichi'n cynorthwyo i ychwanegu gwerth at gasgliad ffotograffau Geoff Charles.

Mae'r casgliad yn wirioneddol unigryw. Bu Geoff Charles yn gweithio fel ffoto-newyddiadurwr i amryw o bapurau newydd, gan gynnwys y *Wrexham Advertiser, Montgomeryshire Express* a *Y Cymro,* o'r 1930au hyd at y 1970au. Dros y cyfnod hwn fe wnaeth ffafr fawr â ni'r Cymry drwy gofnodi'r ffordd Gymreig o fyw sydd wedi hen ddiflannu erbyn hyn. Bellach, mae'r casgliad o dros 120,000 o negyddion yn un o drysorau'r Llyfrgell ac yn adnodd amhrisiadwy ar gyfer awduron, darlledwyr, haneswyr, myfyrwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Felly, dyma gyfle i bori drwy hanes diwylliannol a diwydiannol yr ugeinfed ganrif, gan gynnwys yr Eisteddfodau Cenedlaethol, Eisteddfodau Cenedlaethol yr Urdd, ynghyd â chofnod ffotograffig amhrisiadwy Geoff Charles o gymuned dyffryn Tryweryn cyn ei boddi yn 1965.

Os na fedrwch ddod i adeilad y Llyfrgell yn Aberystwyth i weld y casgliad, beth am fynd ar-lein i bori drwyddo? Os ydych yn adnabod rhai o'r unigolion yn y ffotograffau, cysylltwch â ni fel y gallwn ychwanegu at y wybodaeth sydd gennym.

Byddwch yn rhan o'n hymdrech ni i rannu'r casgliad pwysig hwn gyda'r byd!

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am wirfoddoli – byddwn yn falch o glywed gennych trwy e-bost: gwyneth.davies@llgc.org.uk neu ffoniwch 01970 632991.

18 yw'r oed ifancaf i wirfoddoli – ond does neb byth yn rhy hen i gychwyn!

# Taith i Kampala, Uganda

Bydd Zoe Jones Swyddog Datblygu Gwaith Plant ac Ieuenctid Menter Gyd-enwadol Eglwysi Gogledd Ceredigion, yn mynd ar daith wedi ei threfnu gan yr elusen Gristnogol Tearfund rhwng Gorffennaf 1- 14, a'r bwriad yw ymweld â phrosiect COBAP yn Kampala, Uganda. Prosiect cyd-enwadol yw hwn, yn cael ei redeg yn llwyr gan aelodau o eglwysi lleol, er mwyn estyn cymorth ymarferol i bobl sy'n dioddef gydag HIV Aids a'u teuluoedd, a gweithio gyda phlant a phobl ifanc yr ardal yn darparu addysg am yr afiechyd. Yn ystod y daith, bydd yn cael ymuno yng ngweithgareddau amrywiol COBAP, sy'n amrywio o helpu mewn clybiau plant i helpu gydag unrhyw waith cynnal a chadw sydd ei angen.

Mae Zoe yn ddiolchgar iawn i Fenter Gobaith am ei rhyddhau o'i gwaith am bythefnos i ymgymryd â'r daith hon, ac am eu cefnogaeth i'r syniad. Mae'n credu y bydd y profiad yma o fudd mawr iddi hi yn bersonol, i ehangu ei gorwelion a'i dealltwriaeth o waith cenhadol. Ond hefyd, mae'n awyddus i rannu'r hyn a ddysga gyda phlant a phobl ifanc Gogledd Ceredigion. Cafodd ei hysbrydoli trwy glywed ffrind yn rhannu ei phrofiad hi yn India a sylweddoli cymaint mae Cristnogion yn y gwledydd tlawd angen ein gweddïau a'n help ariannol – a gobeithia y galla hithau gael ei defnyddio yn y gwaith o ysbrydoli a chenhadu.

Cost y daith gyfan yw tua £1,500; bydd yn gweithio'n galed ei hun i godi arian trwy lawer o bethau 'noddedig' ond os oes rhywun am gyfrannu at y daith gellir cysylltu â Zoe d/o Swyddfa Merched y Wawr, Stryd yr Efail, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1JH ( 01970) 611510 zoejones34@gmail.com



tearfund

# Llongyfarchiadau Alun



Llongyfarchiadau i Alun Jones, Chwilog, (gynt Gwyddfor, Bow Street ) ar ennill Medal Goffa Syr T H Parry-Williams. Cyflwynir y Fedal yn flynyddol i unigolyn sydd wedi gwneud cyfraniad gwirfoddol yn eu hardal leol, gyda phwyslais arbennig ar weithio gyda phobl ifanc.

Daeth Alun yn Bennaeth y Gymraeg yn Ysgol Penweddig, Aberystwyth, yn 1974, a dyma lle yr arhosodd y teulu am flynyddoedd, gydag Alun yn hyfforddi, mentora a chynghori cenedlaethau o bobl ifanc, gyda nifer yn mynd ymlaen i ddilyn gyrfa ym myd perfformio neu gyflwyno. Bu hefyd yn gweithio gyda myfyrwyr y brifysgol, a byddai bob amser yn fodlon gwrando, annog a chynnig cymorth lle roedd angen, gan fagu hyder amryw o feirniaid ifanc.

Yn ystod y cyfnod hwn bu hefyd yn weithgar yn ei gymuned yn Rhydypennau, gan sefydlu Parti Nant Afallen, a fu'n fuddugol sawl tro yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac yn yr Ŵyl Gerdd Dant, yn ogystal â chefnogi eisteddfodau llai.

Bu'n olygydd *y Tincer* rhwng Medi 1987 a Mehefin 1990 ac yn rhedeg Aelwyd Rhydypennau.

Ar ôl ymddeol o Ysgol Penweddig, bu'n darlithio yn Adran Addysg y Brifysgol, lle yr ysbrydolodd genhedlaeth o athrawon gan eu argyhoeddi o bwysigrwydd gwaith allgyrsiol i sicrhau ffyniant y Gymraeg. Bu'n Brif Arholwr CBAC Cymraeg Lefel A, ac mae'n parhau i arholi'n llafar o amgylch Cymru.

Erbyn hyn, ac yntau wedi ymddeol o'r brifysgol, mae'n gweithio fel golygydd i wasg Y Lolfa, ac mae'n cynghori a helpu awduron hen ac ifanc sy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ddi-os, mae brwdfrydedd a chyfraniad Alun yn crisialu amcanion Cronfa Goffa Syr T.H. Parry-Williams, a thrwy hynny, mae'n llawn haeddu derbyn y Fedal er clod eleni.

Bydd Alun yn derbyn y Fedal ar lwyfan y Pafiliwn yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr a gynhelir yn Y Meysydd Gŵyl, Parc Arfordirol y Mileniwm, Llanelli, o 1-9 Awst eleni. Am ragor o wybodaeth am yr Eisteddfod, ewch i www.eisteddfod.org.uk.

## Y BORTH

### Cynrychioli Ceredigion

Llongyfarchiadau i Grady Hassan, Ynys-las – sydd yn canu'r tiwba - ar ennill y wobr gyntaf yn Eisteddfod Ranbarthol Ceredigion ar yr unawd Pres Bl. 10 a dan 19 oed. Pob hwyl iddo yn y Bala.

### Trenau ychwanegol

Daeth newyddion da ar 7 Ebrill pan gafwyd cadarnhad y bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu trenau rhwng Aberystwyth a'r Amwythig. Bydd pedwar o wasanaethau dwyffordd ychwanegol yn rhedeg rhwng Aberystwyth a'r Amwythig, o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, gyda gwasanaethau bob awr ar gyfer oriau brig y bore a'r prynhawn gan ddechrau ym mis Mai 2015. Bydd hefyd ddwy dren dychwelyd ychwanegol ar ddydd Sul.


**SIWT MA' DOD YN UN O 'FERCHED BECA'?**
**MAE'N SYML...**

1. YSGRIFENWCH SIEC AM £100* (DYNA'R DARN ANODDAF, SIWR O FOD)
2. EI HANFON, YNGHYD Â'R HYSBYSEB HON, AT: Radio Beca cyf. Uned 2, Bryn Salem, Felin-fach, Dyffryn Aeron, Ceredigion, SA48 8AE. [*Gallwch drefnu dalu £10 y mis x 10 mis trwy gysylltu â'r swyddfa – 01570 471500]

**ENW:** ______

**CYFEIRIAD:** ______

______

______

**CÔD POST:** ______

**EBOST:** ______

Cewch dystysgrif 'Aelod Sylfaenol' yn ôl â throad y post. Cewch hefyd y boddhad o wybod i chi gyfrannu at gryfhau cymdeithas y Gymraeg ar hyd a lled sir Benfro, sir Gâr a Cheredigion.

**CYFEIRIWCH UNRHYW GWESTIYNAU AT...**
Geraint Davies 01545 570150 / 07974 366672 / GERAINT.DAVIES@mail.nasuwt.org / Sulwyn Thomas 01267 235385 / sulwynthomas@yahoo.co.uk /
Tudur Lewis 01348 873700 / 07971 365083 / tudur@mentersirbenfro.com
Euros Lewis 01570 471500 / 07813 173155 /
**ymhol@radiobeca.co.uk www.radiobeca.co.uk**



LLGC NLW Llyfrgell Genedlaethol Cymru The National Library of Wales Aberystwyth

ASSOCIATION OF FAMILY HISTORY SOCIETIES OF WALES
CYMDEITHASAU HANES TEULUOEDD UNDEBOL CYMRU

**Ffair Hanes Teulu a Hanes Lleol**
i'w chynnal yn
**Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth**
**17 Mai 2014**

**10.00 – 4.00 o'r gloch**
Diwrnod llawn cyflwyniadau, teithiau, stondinau a chyfle i siarad ag arbenigwyr.

Mynediad am ddim. Rhaid archebu tocyn am ddim i'r cyflwyniadau a theithiau drwy www.llgc.org.uk/drwm neu ffonio 01970 632 548

am fanylion pellach http://www.fhswales.org.uk/

Annwyl ddarllenwyr,

Mae gwahoddiad i aelodau ysgolion, clybiau, busnesau a mudiadiau rhedeg a chefnogi Ras yr Iaith ar ddydd Gwener 20 Mehefin 2014.

Nid Ras gyfnewid gyffredin mo hwn ond rhediad hwyl. Does dim cystadleuaeth - dim ond gofyn i glybiau noddi i redeg 1 cilomedr gan basio baton o un cilomedr i'r llall.

Byddwn yn dechrau ym Machynlleth ben bore ac yn gorffen yn Aberteifi fin nos gan redeg drwy 7 tref arall ar hyd y ffordd. Ein bwriad yw rhedeg trwy Fachynlleth a threfi Ceredigion er mwyn dathlu'r iaith Gymraeg!

Mae'n costio £50 i glwb, ysgol neu fusnes noddi 1km. Ond gall gymaint o aelodau'r sefydliad honno ag yr hoffech redeg y cilomedr am ddim cost ychwanegol. Ein bwriad yw gweld cannoedd o bobl ar hyd yn dydd yn rhedeg i ddangos eu cefnogaeth i'r iaith .... ac i gadw'n iach. Mae rhagor o wybodaeth am y ras ar ein gwefan http://rasyriaith.org ac rydym ar Facebook a Twitter hefyd.

Bydd yr elw a gesglir o'r Ras yn mynd nôl ar ffurf grantiau i hybu'r Gymraeg yng Ngheredigion a Bro Ddyfi.

Mae pwyllgorau lleol yn cael eu sefydlu ar hyn o'r bryd ac rydym yn edrych am redwyr, stiwardiaid a gyrwyr ... a phobl i godi posteri!

Byddwn dim ond yn rhedeg yn y trefi eleni ac nid rhwng y trefi. Dyma'r amserlen yn fras:

Dydd Gwener 20 Mehefin 2014
8.30am - Machynlleth (Meredid, Menter Iaith Maldwyn; Bedwyr Fychan)
10.00 - Aberystwyth (Jaci Taylor; Siôn Jobbins)
1.00pm - Tregaron (Dwynwen Lloyd-Llywelyn)
2.00pm - Llambed (Phyl Brake, Carys Lloyd-Jones, Rhys Bebb)
3.00 - Aberaeron (Owen Llywelyn, Rhodri Francis)
4.00 - Cei Newydd (Carol Davies)
5.00 - Llandysul (Keith Evans Pete Evans)
6.00 - Castell Newydd Emlyn (Nia ap Tegwyn Menter Iaith Gorll Sir Gâr)
7.00 - Aberteifi (Rhidian Evans Menter Iaith Sir Benfro, Rhian Medi)

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Menter Iaith Cered yn Felin-fach 01545 572350 .

Edrychwn ymlaen i weld cannoedd yn rhedeg dros yr iaith!

Yn gywir,
Siôn T. Jobbins
Cadeirydd Ras yr Iaith

Aberystwyth
www.twitter.com/MarchGlas
www.sionjobbins.com

y tincer

Annwyl Olygydd,

Rwy'n cysylltu â chi ar ran Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru ynglŷn â dau fater a allai fod o ddiddordeb i'ch darllenwyr.

Un o brif amcanion y Gymdeithas yw gwarchod enwau lleoedd, ond ry'n ni'n dod yn fwy a mwy ymwybodol o'r bygythiad sy'n eu hwynebu, a hynny wrth i bobl newid enwau a defnyddio cyfieithiadau Saesneg. Ar hyn o bryd mae'r Gymdeithas yn casglu enghreifftiau penodol o'r duedd yma gyda'r bwriad o'u cyflwyno fel tystiolaeth i'r Cynulliad er mwyn pwyso am newid yn y drefn gynllunio. Ry'n ni'n apelio felly ar i bobl gysylltu â ni gydag enghreifftiau o enwau lleoedd yn cael eu newid, gyda thystiolaeth megis lluniau neu ddogfennau i ategu hynny. Byddem yn ddiolchgar dros ben pe gallech eu gyrru i'r cyfeiriad neu'r cyfeiriad ebost a nodir uchod.

Mae'r ail fater yn berthnasol i ffermwyr sydd ar fin mynd ati i lenwi eu ffurflenni taliad sengl. Eleni, am y tro cyntaf, mae modd cofnodi enwau caeau wrth lenwi'r ffurflen ar-lein, felly carwn annog ffermwyr i wneud hyn. Bydd y wybodaeth a gesglir yn creu cronfa werthfawr tu hwnt o enwau caeau ar gyfer ymchwilwyr y dyfodol, cronfa fydd i'w chymharu â'r Mapiau Degwm a luniwyd yn yr 1840au ac sy'n parhau'n ffynhonnell mor allweddol i astudiaethau enwau lleoedd heddiw.

Felly cofiwch nodi enwau'ch caeau ar y ffurflenni!

Gyda diolch am eich cydweithrediad.

Yn gywir,
Angharad Fychan,
Ysgrifennydd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru
Y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd,
Llyfrgell Genedlaethol Cymru,
Aberystwyth, SY23 3HH
enwaulleoedd@gmail.com
http://www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org

Annwyl olygydd,

Ry'n ni i gyd yn gwybod fod costau byw yn gwasgu ar lawer o bobl yng Ngheredigion. Mae ynni i wresogi tai yn enwedig yn ddrud iawn. Bu llawer o sylw yn ddiweddar i gostau ynni, ac mae'n siwr y bydd mwy o sôn adeg y Gyllideb

Ond mae'r ddadl Lundeinig yn dueddol o anghofio fod nifer o bobl (bron 70% o boblogaeth Ceredigion) ddim yn agos at bibell nwy, felly ddim yn medru derbyn y prisiau rhataf.

Rwyf innau a Phlaid Cymru yn y sir yn casglu gwybodaeth ar gyfer ymgyrch i gael chwarae teg i Geredigion, ar gostau byw ac ynni.

Byddwn yn ddiolchgar pe bai pobl yn cymryd rhan ar-lein trwy'r ddolen yma: https://www.surveymonkey.com/s/holiadurynniceredigion

Diolch o galon,
Mike Parker
Ymgeisydd San Steffan, Plaid Cymru Ceredigion.
32, Heol y Wig, Aberystwyth

# Ysgol Penrhyn-coch

### Pêl-droed merched

Teithiodd tîm o ferched hŷn yr ysgol i lawr i gaeau Blaendolau i gymryd rhan yn nhwrnament pêl-droed yr Urdd. Bu'r merched wrthi yn ymarfer yn ddiwyd ers nifer o wythnos o dan arweinyddiaeth Miss Jones. Yn ystod y dydd, llwyddwyd i ennill gêmau ynghyd â cholli gêmau. Er hynny, ni aethpwyd drwodd i'r rowndiau terfynol. Llongyfarchiadau iddynt i gyd.

### Eisteddfod Ysgol

Ar yr 7fed o Fawrth, cynhaliwyd Eisteddfod yr Ysgol. Ein beirniaid eleni oedd Miss Kelsey Thomspon a Miss Heledd Llwyd. Cafwyd rhagbrofion yn ystod y diwrnod cynt ynghyd â bore yr Eisteddfod, gyda 2 o bob llys yn symud drwyddo i'r Eisteddfod yn y prynhawn. Ar ddiwedd diwrnod hwyliog o gystadlu, lle gwelwyd pob plentyn yn yr ysgol yn cymryd rhan unigol, Stewi a fu yn fuddugol – unwaith eto elni. Enillwyd cadair yr Eisteddfod gan Charlotte Ralphs.

Llongyfarchiadau i bawb am eu gwaith caled ac i'n beirniaid am eu gwaith arbennig, heb anghofio ein cyfeilydd Ceris Gruffudd.

### Eisteddfod yr Urdd

Unwaith eto eleni gwelwyd nifer dda iawn o ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu yn Eisteddfodau Cylch yr Urdd. Llwyddodd Côr yr ysgol i ennill drwodd i'r Eisteddfod Sir ynghyd â'r parti Deulais. Llongyfarchiadau hefyd i'r parti llefaru am gystadlu yn erbyn nifer o bartion eraill. Yn anffodus ni enillwyd drwodd i'r Eisteddfod yn y Bala y tro hwn. Diolch i'r holl staff am eu gwaith yn hyfforddi'r disgyblion ac i'r rhieni am eu cefnogaeth.

### Eisteddfod Penrhyn-coch

Bu mwyafrif o ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu yn Eisteddfod Penrhyn-coch. Gwelwyd nifer dda iawn o ddisgyblion yn cefnogi ac yn cystadlu yn unigol neu fel aelodau o grŵp. Llongyfarchiadau i bawb a fu wrthi yn cystadlu.

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Mrs Evans ar enedigaeth merch fach – Elsa Aneurin. Edrychwn ymlaen i'w croesawu i'r ysgol.

### Gŵyl Agor Drysau

Fel rhan o Ŵyl Agor Drysau Arad Goch, derbyniodd y disgyblion gyfle i wylio perfformiadau amrywiol. Bu disgyblion y Cyfnod Sylfaen i gyd yn gwylio perfformiad o "Cwpwrdd Dillad" gan Gwmni'r Frân Wen. Sioe oedd hon yn seiliedig ar ddau gymeriad a chynnwys Cwpwrdd Dillad. Cyflwynwyd y sioe i gyd drwy gyfrwng cerddoriaeth ac ni chafwyd unrhyw sgwrsio. Cafwyd mwynhad yn gwylio'r perfformiad.

Bu Cyfnod Allweddol 2 yn gwylio sioe Echoa gan Compagnie Arcosm o Ffrainc. Cyfuniad o ddawns a cherddoriaeth oedd y perfformiad yma gydag ychydig o hiwmor wedi ei gynnwys. Roedd y perfformiad yn arbennig gyda pob disgybl yn dangos mwynhad. Heb amheuaeth, bu'n gyfle arbennig i holl ddisgyblion yr ysgol i dderbyn cyfle i wylio perfformiadau byw Rhyngwladol. Edrychwn ymlaen yn awr i'r Ŵyl nesaf.



Dau filwr yn disgwyl yn eiddgar yn Nghastell Aberystwyth.



Parti y Cyfnod Sylfaen



Eliot Moleba yn gweithio gyda disgyblion Cyfnod Allweddol 2

### Eliot Moleba

Cafwyd ymwelydd arbennig iawn i'r ysgol yn ystod y mis. Daeth Eliot Moleba o Limpopo yn Ne Affrica atom. Mae Eliot yn gweithio ym myd Drama yn Limpopo ac yn enwedig gyda phlant a phobl ifanc. Daeth i Gymru fel rhan o Ŵyl Agor Drysau ond cyn gadael am adre, galwodd i mewn atom i gynnal sesiwn o Ddrama a Chwarae. Fe'i welwyd yn gweithio gyda holl ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 ac erbyn diwedd y cyfnod byr, rhoddwyd perfformiad gan pob un o'r disgyblion. Ar ddiwedd y sesiwn cafwyd cyfle i ofyn cwestiynau iddo am ei fywyd a'i waith. Trueni ei fod yn gorfod ein gadael i ddal trên am adre. Dyma oedd sesiwn arbennig gyda gŵr arbennig. Gobeithiwn ei groesawu yn ôl atom rhywbryd yn y dyfodol.

### Pen blwydd Arad Goch

Llongyfarchiadau mawr i Charlotte Richmond am ennill cystadleuaeth Cerdyn Pen blwydd Arad Goch. Mae Arad Goch yn dathlu pen blwydd arbennig eleni, sef 25 mlynedd o fodolaeth. Llongyfarchiadau gwresog iddi ar ei llwyddiant.

# Ysgol Craig yr Wylfa



Trip gwyddoniaeth



Darllen gyda Joy

### Gwyddoniaeth

Yn ystod mis Mawrth aeth plant Ysgol Craig yr Wylfa i'r Brifysgol i gael y ddarlith wyddoniaeth flynyddol. Bob blwyddyn, mae'r plant yn cael amser wrth eu boddau'n gweld y gwahanol arbrofion a weithiau bydd cyfle i gymryd rhan hefyd. Eleni, cafodd Rhys a Dylan eu gwahodd i'r blaen i gynorthwyo'rgwyddonwyr. Rydych chi'n edrych yn smart yn eich sbectol diogelwch fechgyn.

### Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau mawr i Harvey Perkins am berfformiad arbennig ar yr unawd canu yn Eisteddfod yr Urdd ac yn enwedig i'r



Blodau Beryl

grŵp dawnsio disgo a gafodd yr ail wobr. Diolch yn fawr iawn i Miss Hughes am ddysgu'r plant.

### Arolwg

Dros yr wythnosau diwethaf mae holl gymuned yr ysgol a thu hwnt wedi bod yn ein cynorthwyo i baratoi ar gyfer arolwg gan Estyn. Ar ôl gaeaf ddigon caled yng ngogledd Ceredigion, roedd llawer o ganghennau a brigau ar draws y lle a sawl ffens wedi torri. Felly, roedd angen cryn dipyn o dacluso a chymennu ar y safle. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i bawb a wnaeth ein cynorthwyo gyda'r gwaith, y tu mewn a'r tu allan. Byddai dechrau enwi'r holl bobl a fu yma dros y penwythnosau diwethaf yn beryglus iawn. Bydd adroddiad yr arolwg a'r argymhellion yn dilyn ym mis Mai.



Dawnsio disgo



# Ysgol Pen-llwyn

### Pentywyn

Aeth mwyafrif o ddosbarth 2 yn ddiweddar i Ganolfan Awyr Agored Pentywyn. Treulion ni wythnos bleserus iawn yna. Buodd y plant yn profi llawer o weithgareddau anturus megis abseilio, dringo, gwifren zip, extreme stream, saethyddiaeth a llawer o gêmau tîm. Roedd pawb wedi bodloni cymryd rhan a cheisio goresgyn ofnau i lwyddo yn y wahanol campau. Yn ôl y plant, eu hoff weithgaredd oedd yr Extreme Stream, lle roedd rhaid iddyn nhw weithio fel tîm i gerdded fyny nant wyllt fwdlyd. Dwi'n meddwl mai'r ffaith fod yn rhaid gwlychu i'r croen a mynd yn fwdlyd iawn oedd yr apêl fwyaf. Buon ni hefyd ar daith i Gastell Penfro gan ddysgu llawer am Harri'r Seithfed. Wythnos fuddiol a phleserus iawn.

### Agor Drysau

Aeth Dosbarth 1 i weld perfformiad Arad Goch o Cwpwrdd Dillad fel rhan o'r ŵyl Agor Drysau. Fe fwynheuon nhw y sioe yn fawr, yn enwedig gan nad oedd sgript i'r sioe. Roedd rhaid i'r disgyblion wylio'r actorion yn meimio'r stori. Diolch Arad Goch am berfformiad safonol arall.

### Ymweliad â'r Castell

Er mwyn gorffen ei thema ar Gestyll a Dreigiau, aeth disgyblion dosbarth 1 gyda disgyblion ieuengaf Ysgol Penrhyn-coch i dreulio'r diwrnod yng Nghastell Aberystwyth. Roedd y Plant wedi troi lan yn eu gwisgoedd Canoloesol a'u pecynnau bwyd canoloesol ar gyfer diwrnod o weithgareddau ymarferol ar safle'r Castell.

### Nant yr Arian

Cafodd yr ysgol wahoddiad gan Lee Denyer yn ddiweddar, sef swyddog addysg Nant yr Arian. Gan fod llawer o goed wedi cael eu dymchwel oherwydd afiechyd, gwahoddodd Lee yr ysgol i blannu coed ffrwythau o gwmpas Canolfan Groeso Nant yr Arian. Cafwyd prynhawn diddorol yn helpu Lee i blannu coed, chwarae a gweld y barcud coch yn cael eu bwydo. Edrychwn ymlaen i weld y coed yn tyfu yn y blynyddoedd nesaf.

### Eisteddfod Gylch yr Urdd

Da iawn i Megan Lewis, Laura Jones-Williams, Llŷr Evans, Liam Evans a Morgan Joyce a aeth i gynrychlioli'r ysgol yn ddiweddar yn Eisteddfod Gylch yr Urdd wrth adrodd a pharatoi Ymgom. Da iawn chi am eich gwaith caled.

### Gŵyl Wyddoniaeth

Treuliodd dosbarth 2 brynhawn ym Mhrifysgol Aberystwyth yn ddiweddar gogyfer â gweithdy Gwyddoniaeth. Buodd y disgyblion yn dysgu llawer am swigod, anifeiliaid, ailgylchu, trychfilod bach, germau a thechnoleg modern. Diolch i'r brifysgol am drefnu gweithgareddau diddorol i hybu gwyddonwyr y dyfodol.



Plant tu allan i un o'r cabanau ym Mhentywyn



Mwynhau yn yr “extreme Stream”



Tu allan i Gastell Penfro





Ymweliad y Cyfnod Sylfaen â'r castell.

# Ysgol Rhydypennau

### Eisteddfod Yr Urdd

Da iawn i bawb a fu'n perfformio ym Mhontrhydfendigaid yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr a phob lwc i'r Parti Cerdd Dant, i'r Dawnsio Gwerin ac i Tomos Lyons blwyddyn 6 (Unawd Pres) am lwyddo i ennill a sicrhau lle haeddiannol yn Eisteddfod Meirionydd yn ystod hanner tymor mis Mai.

### Noson Agored

Cynhaliwyd nosweithiau agored yn yr ysgol yn ddiweddar . Cafodd y rhieni gyfle i weld gwaith y plant a chael sgwrs adeiladol gyda'r athrawon.

### Diwrnod y Llyfr

I ddathlu Diwrnod y Llyfr cynhaliwyd 'Readathon' yn yr ysgol. Noddwyd y plant i ddarllen am gyfnod hir yn ystod diwrnod penodol. Llwyddwyd i godi £1,228.71 er mwyn helpu plant sy'n ddifrifol sâl. Da iawn bawb am gasglu swm mor anrhydeddus.

### Prifysgol

Ar y 19eg o Fawrth, fe aeth plant blwyddyn 4, 5 a 6 i'r Brifysgol er mwyn dathlu 'Wythnos Gwyddoniaeth'. Profodd y plant nifer o weithgareddau diddorol iawn yn ystod y bore a hwyluswyd y dysgu gan fod y tasgau yn ymarferol ac yn weladwy iawn. Ar y 27ain o Fawrth fe aeth dosbarth Mrs Williams i'r astro yn y Brifysgol i fwynhau sesiwn aml sgiliau iechyd a ffitrwydd dan ofal tîm aml sgiliau Ceredigion.

### Gorchest

Llongyfarchiadau mawr i Katie Davidson a Rhys Tanat am flasu llwyddiant mewn dwy gystadleuaeth wahanol yn ddiweddar. Daeth Rhys yn fuddugol mewn cystadleuaeth ysgrifennu adolygiad llyfr a drefnwyd gan Lyfrgell Ceredigion. Ac fe ddaeth Katie yn gyntaf mewn cystadleuaeth creu poster ar gyfer Y Pasg a drefnwyd gan Eglwysi Ceredigion. Ardderchog!



Gŵyl Aml Sgiliau



Katie a Rhys – enillwyr y ddwy gystadleuaeth



Casglwyr brwd ar gyfer y 'Readathon' diweddar – Cai Powell (£55) a Katie Davidson (£100)




Y Llysgenhadon Ifanc



Wythnos wyddoniaeth




Lleucu a'i llyfr

**Am fwy o wybodaeth cliciwch ar**
**www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk**

### Llyfr Lleucu

Holwyd i Lleucu Siôn blwyddyn 2 osod sêl bendith ar stori gan yr awdures Meleri Wyn James. Mae'n amlwg i Lleucu gael ei phlesio gan i'r llyfr gael ei gyhoeddi'n ddiweddar.

### Llysgenhadon Ifanc

Er mwyn hyrwyddo iechyd a ffitrwydd yn ein hysgolion mae Llysgenhadon Ifanc wedi eu penodi ar draws ysgolion Ceredigion. Yn Ysgol Rhydypennau penodwyd Sian Duckett, blwyddyn 6 ac Owain Ifans, blwyddyn 5 nôl yn yr Hydref ac y mae'r ddau wedi derbyn hyfforddiant gan gydlynydd aml sgiliau'r sir, Alwyn Davies. Erbyn hyn mae'r ddau yn trefnu sesiynau cyn ysgol pob bore Llun a phob bore Iau o 8:15 ymlaen. Mae'r sesiynau yn agored i bawb.

### Clwb Cant Ebrill

| | | |
|---|---|---|
| 1af | £25 | Caryn James Penrhyn-coch |
| 2il | £15 | Jessica Mai Evans. Talerddig. |
| 3ydd | £10 | Gwendoline Pugh. 19 Tregerddan. |

**MYNACH HANDYMAN**
**Cynnal a Chadw Tŷ, Gardd, Siediau a Tŷ Gwydr, Golchi Patio**
Rhoddir sylw i'r gwaith bach yna does byth amser gennych i orffen. Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
**Ffoniwch Meirion:**
**01974 261758**
**07792457816**
mynachhandyman@yahoo.com

# Tasg y Tincer



Anya Rhiannon Evans

Diolch i Mackenzie Byrne, y Borth; Anya Rhiannon Evans, Capel Bangor; Annie-May James, Penrhyn-coch; Dyfri a Heddwyn ap Ioan, Llandre; Nia Jones, Bont-goch a Gwawr Morgan, Llandre, am liwio llun y plant yn mwynhau eu picnic. Dy enw di, Anya Rhiannon Evans, ddaeth o'r het yn gyntaf. Llongyfarchiadau mawr, a diolch i chi i gyd am eich gwaith hyfryd.

Ryden ni yng nghanol tymor yr eisteddfodau, ac mi ddwedodd deryn bach wrtha i fod sawl un o ddarllenwyr ifanc y *Tincer* wedi cael llwyddiant yn eisteddfodau'r Urdd yn ddiweddar, heb anghofio'r eisteddfod ysgol, ac Eisteddfod Penrhyn-coch, wrth gwrs. Da iawn i bawb wnaeth gystadlu – ond cofiwch nad ennill sy'n bwysig, ond cymryd rhan. Wyddoch chi mai yn Aberteifi yn y flwyddyn 1176 y trefnwyd yr eisteddfod gyntaf? Mae hynny dros 800 mlynedd yn ôl! Y mis hwn, lliwiwch lun yr het Basg, a honno'n llawn pethau hyfryd, gan fod adeg y Pasg wedi cyrraedd – cyfle i ddathlu bywyd newydd, ac i fwyta wyau siocled! Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn dydd Calan Mai - 1 Mai. Ta ta tan toc, a Pasg hapus!



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn | Oed


**M THOMAS**
Plymwr Lleol
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymio
ac hefyd gwaith nwy
Prisiau rhesymol
07968 728470
01970 820375

**JONATHAN JAMES LEWIS**
Saer Coed
Adeiladydd
01970 880652
07773442260
Bronllys
Capel Bangor
Aberystwyth

**GOLCHDY LLANBADARN**
CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DUFET MAWR
CITS CHWARAEON
FFÔN: 01970 612 459
JEAN JAMES



ISSN 0963-925X
9 770963 925009
Rhif 368 | EBRILL 2014